Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Dydd Mercher, 29 Awst 2018

Annwyl Mr Ramsay,

Cyf: Adroddiad WAO ar Wybodeg yn GIG Cymru

Rwyf wedi cytuno i yrru nodyn o'r nifer a'r mathau o ddifodiadau sydd wedi digwydd rhwng Ionawr y 1af a'r presennol.

Roedd yno gyfanswm o 21 diffodiad - h.y. digwyddiadau cafodd eu nodi gan y ddesg wasanaeth oedd yn golygu nad oedd defnyddwyr yn gallu cael mynediad at CaNISC, WLIMS nac at Ganolfannau Data Cenedlaethol (yn effeithio mynediad at WLIMS neu CaNISC) - rhwng y 1af o Ionawr 2018 a 31ain o Orffennaf 2018.

Tabl yw atodiad 1 yn disgrifio manylion y difodiadau, yn cael ei ddangos yng nghyd-destun y gwasanaeth gafodd y digwyddiad ei gofnodi yn ei erbyn gan y Bwrdd Iechyd/ Ymddiriedolaeth.

Fel yr amlinellais mewn gohebiaeth flaenorol, roedd yno dri diffodiad penodol yn perthyn i'r canolfannau data yn gyfan gwbl. Rydym yn gwerthfawrogi fod y problemau dros y deuddeg mis diwethaf, yn enwedig gyda WLIMS a CaNISC a'r tri digwyddiad wnaeth effeithio'r canolfannau data yn fwy eang, yn bryder i'r gwasanaeth. Rydym yn barod i ganolbwyntio ar y gweithredoedd adferol yn ogystal â chymryd adolygiad mwy trefnus o'r rhwydwaith mewnol ac unrhyw wasanaethau cynnal cysylltiol.

Roeddwn wedi cytuno i yrru nodyn ynglŷn â sut mae'r 'cloud' wedi cael ei dderbyn gan NWIS/ GGGIG.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r diwydiant TG wedi bod yn troi tuag at ddarparu a defnyddio gwasanaethau cyfrifiadurol y 'cloud'. Mae hyn yn golygu, yn lle fod yr holl feddalwedd a chaledwedd cyfrifiadurol sydd yn cael ei ddefnyddio er mwyn darparu gwasanaeth TG yn eistedd tu mewn i rwydwaith sefydliad, bydd y cwsmer yn cael cynnig atebion yn rhannol neu yn gyfan gwbl gan gwmni arall ac fel rheol yn cael mynediad ato dros y we.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Gwasanaeth
Gwybodeg
Informatics
Service

Tudalen y pecyn 122

Angerddol am wneud gwahaniaeth
Darparu gwybodaeth a thechnoleg ar gyfer gofal gwell
Passionate about making a difference
Delivering information and technology for better care



Mae NWIS/ GGGIG wedi bod yn gweithio ar ddefnyddio gwasanaeth y 'cloud' am nifer o flynyddoedd. Rydym ar hyn o bryd yn cefnogi dros 10,00 o aelodau o staff drwy ddefnyddio gwasanaeth y cloud ar gyfer e-bost gyda Microsoft Office 365, cadw ffeiliau gyda OneDrive, Skype yn ogystal â gwasanaethau eraill. Mae hynny yn cynnwys holl staff Meddygon Teulu, holl staff NWIS/GGGIG a hefyd o gwmpas 250 o ddefnyddwyr yn yr Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwylans Cymru. Mae rhai LHBs hefyd yn gweithio gyda PowerBI (Gwasanaeth Cyd wybodaeth Busnes). Yn ychwanegol, mi fydd y defnyddwyr Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn defnyddio Office 365.

Mae un o ddarparwyr systemau meddygon teulu GIG Cymru (Microtest) yn defnyddio 'UKCloud' (<https://uk.cloud.com/>) er mwyn cynnal systemau ar gyfer ei feddygfeydd. Mi fydd meddygfeydd meddygon teulu yn cael eu mudo yn ystod 2019 a 2020.

Yn ychwanegol i hyn, rydym wedi bod yn gweithio gyda Microsoft, ein hail werthwyr Microsoft a sefydliadau GIG Cymru dros y 18 mis diwethaf er mwyn rhoi systemau craidd yn eu lle i alluogi GIG Cymru i ddefnyddio'r gwasanaethau 'cloud', Infrastructure as a Service (IaaS) a Platform as a Service (PaaS) gan Microsoft Azure. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys:

- Sefydlu'r drefn lywodraethol angenrheidiol ar gyfer cadw a phrosesu gwybodaeth sensitif (e.e. Gwybodaeth Adnabod Cleifion) o fewn y 'cloud'. Mae yno ddogfen o'r enw "NHS Wales guidance: Cloud Services" wedi cael ei ddatblygu gan GIG Cymru, yn gysylltiedig gyda Llywodraeth Cymru, ac wedi ei gymeradwyo gan Fwrdd Rheolwyr Gwybodeg GIG Cymru yn Ebrill 2018.
- Dylunio'r strwythur o fewn y denantiaeth Microsoft Azure GIG Cymru i alluogi sefydliadau unigol GIG Cymru gael rheolaeth dros rwydwaith eu hunain a'r gwasanaethau maent yn eu defnyddio.
- Trefniadau bilio- i alluogi sefydliadau unigol i dalu am eu defnydd o wasanaeth Azure.
- Sefydlu cysylltiadau rhwydwaith cadarn o Rwydwaith Lleoliadau Eang GIG Cymru i mewn i Microsoft Azure. Er mwyn sefydlu'r cysylltiadau yma roedd rhaid ail beiriannu rhannu o isadeiledd y rhwydwaith, ac mae'r holl waith yno wedi ei gwblhau.

Mae defnyddio'r gwasanaethau 'cloud' yn fuddiol iawn i GIG Cymru. Ond, mae yno rhai heriau sydd angen eu hystyried, yn cynnwys;

- Ariannu - mae gwasanaethau 'cloud' yn cael eu hariannu gan refeniw, a chaledwedd TG yw un o'r prif bethau sydd yn cael ei brynu gyda chyfalaf busnesau yn bresennol. Bydd hyn yn golygu fod angen newid sylweddol yn y proffil ariannu, sydd yn rhan o'n hasesiad ni ar gyfer unrhyw ddefnydd yn y dyfodol.
- Cynnydd mewn Rheolwyr. Os nad yw'n cael ei reoli yn drefnus, gall gwasanaethau isadeiledd 'cloud' greu costau uwch na'r costau bysai'n cael eu creu wrth redeg systemau ar safle. Mae hyn hefyd yn gofyn i raglenni cael eu creu er mwyn gallu cynnal y gofyniadau.



- Nid yw rhai systemau yn addas ar gyfer cael eu rhedeg o fewn y 'cloud' oherwydd y dechnoleg sydd yn cael ei ddefnyddio, er enghraifft, hen systemau cronfeydd data a rhaglenni sydd ddim wedi cael eu dylunio i allu cael eu defnyddio o fewn y 'cloud'; hefyd mae lefel perfformiad, hydwythdedd ac argaeledd rhai rhaglenni yn eu gwneud yn anaddas ar gyfer cael eu defnyddio ar y 'cloud'.

Fel y soniwyd uchod, mae GGIG wrthi yn adeiladu'r isadeiledd craidd angenrheidiol yn Microsoft Azure ac yn llywio rhan o 'Infrastructure as a service' (IaaS) o fewn y 12 mis nesaf. Yn fwy cyffredinol, allai defnydd o'r cloud gael ei ystyried fel opsiwn ar gyfer prosiectau/ meddiannau yn y dyfodol, ond fydd hynny yn gofyn am symudiad o gyfalaf i mewn i gyllid, yn ogystal â pharodrwydd darparwyr i gynnig meddalwedd fel gwasanaeth yn y dyfodol.

Bydd dechrau defnyddio gwasanaethau'r cloud yn adlewyrchu ymateb mesuredig i'r problemau a risgiau uchod.

Wnes i gytuno i yrru nodyn ynglŷn a'r dadansoddiad gafodd ei wneud ar gyfer y costau oedd yno i newid y meddalwedd CaNISC a'i redeg ochr wrth ochr â ddiweddarau y caledwedd materol.

Costau newid CaNISC

Achos busnes "System Gweinyddu Cleifion Cymraeg yn Velindre" Canolfan Cancr Velindre ac achos busnes Rhwydwaith Cancr Cymru "System Gwybodaeth Cancr" (yn datblygu) yn cefnogi amnewidiad CaNISC. Mae'r ffigyrau yn y tabl isod wedi cael eu tynnu o'r achosion busnes yma; mae nhw'n dynodi y costau disgwylidig presennol a byddent yn cael eu newid wrth i'r prosiect ddatblygu.

		18/19	19/20	20/21	21/22	22/23	Cyfanswm
Cyfnod 1	VCC WPAS	1,115	736	0	0	0	1,851
Cyfnod 2	Cofnodion Electronig Cleifion**	0	1,099	456	399	0	1,954
Cyfnod 3	Datblygiad gallu gweithredol	TBC	TBC	TBC	TBC	TBC	TBC
Cyfanswm		1,115	1,835	456	399	0	3,805

** Costau dangosol cynnar

Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi cymeradwyo achos fusnes "System Gweinyddu Cleifion Cymraeg yn Velindre" Canolfan Cancr Velindre ac mae GGIG/ NWIS yn gweithio gyda Rhwydwaith Cancr Cymru a'r Grŵp Gweithredu Cancr er mwyn gorffen yr achos fusnes ar gyfer y Cofnod Cleifion Electronig cyn ei anfon i Lywodraeth Cymru.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Gwasanaeth
Gwybodeg
Informatics
Service

Tŷ Glan-yr-Afon
21 Heol Ddwyreiniol Y Bont-Faen, Caerdydd CF11 9AD
21 Cowbridge Road East, Cardiff CF11 9AD
Ffôn/Tel: 02920 500500

Mi fydd costau sydd yn cael eu dangos yn y tabl fel TBC yn cael eu datblygu wrth i fanylion ar gyfer y gwasanaethau gael eu cadarnhau gan hapddalwyr a pan fod modd i asesiad llawn o'r opsiynau er mwyn eu cwblhau gallu cael ei wneud.

Costau tagfa diweddarau rhwydwaith y ganolfan ddata

Mae GGIG/ NWIS yn amcangyfrif mai cost diweddarau hen rwydweithiau yn y ddwy ganolfan fydd oddeutu £5.5 - £6 miliwn. Mae hynny yn cynnwys cost y pecynnau eu hunain, a hefyd gwella'r gwasanaethau sydd eu hangen er mwyn eu rhedeg, er enghraifft diogelwch ar lein.

Yn gywir,

Andrew Griffiths
Prif Swyddog Gwybodaeth
Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Gwasanaeth
Gwybodeg
Informatics
Service

Tudalen y pecyn 125

Angerddol am wneud gwahaniaeth
Darnaru gwybodaeth a thechnoleg ar gyfer gofal gwell
Passionate about making a difference
Delivering information and technology for better care

Atodiad 1

Call	Logged	Title	Type	Service	Status	Summary of Cause
3903631	06/01/2018 18:35	OOH LIMS Support	Service Unavailable	Laboratory Information Management System (LIMS)	Closed	A combination of defragmentation, synchronisation and purging occurred at the same time causing the servers to freeze. A restart of the affected servers restored access
3941086	24/01/2018 15:50	Data centre issue	Service Unavailable	Network Services	Closed	An error in the configuration of the network firewalls was the root cause, triggered by a routine application of a firewall rule. The supplier implemented a number of changes to the configuration which restored service
3955814	31/01/2018 13:30	canisc	Functionality Issue	Canisc	Closed	A number of issues with the configuration of the Citrix environment were identified as the root cause to this outage.
3957025	01/02/2018 08:42	Canisc - unable to launch	Functionality Issue	Canisc	Closed	A number of issues with the configuration of the Citrix environment were identified as the root cause to this outage.
4058623	21/03/2018 15:47	ESC Email/intranet unavailable	Service Unavailable	Hosted Messaging Services	Closed	The suppliers investigated the log files to try to identify the root cause of this incident, and were unable to determine or recreate in their environments. The Impacted devices were stopped and restarted which restored service
4074744	29/03/2018 15:43	TCL unresponsive	Service Unavailable	Laboratory Information Management System (LIMS)	Closed	There was insufficient capacity in the Citrix environment to be able to successfully manage a manually run backup. This caused the system to freeze and users to lose access. A reboot of the impacted servers, and the supplier issuing a number of thaw commands to the backup restored service
4106391	17/04/2018 12:21	Storefront unavailable	Service Unavailable	Canisc	Closed	An issue with the Citrix configuration meant that some user sessions failed as one from a pair of servers was unavailable. A restore of the correct configuration was applied which restored access
4123288	24/04/2018 16:54	Unavailability of Network	Functionality Issue	National Data Centres	Closed	it was identified that there was a corruption of the configuration of a switch which prevent access to systems. The configuration was restored which resolved the issue
4134166	30/04/2018 13:20	ESC Canisc - General Issue	Functionality Issue	Canisc	Closed	An unexpected shutdown of a server was identified as the root cause. When the server restarted automatically, manual intervention was then required to restore service
4134837	30/04/2018 15:25	TrakCare LIMS	Service Unavailable	Laboratory Information Management System (LIMS)	Closed	A 'Write Daemon' issue with the WLIMS servers caused the system to freeze. A reboot of the servers was required, which restored service
4141650	03/05/2018 07:45	starts up then closes down straight away	Functionality Issue	Canisc	Closed	Following a planned failover, a number of configuration issues were identified with the secondary servers which prevented access to the system for some users. Changes to the configuration were made to mirror the production service which restored access.
4161255	14/05/2018 12:10	ESC Functionality Issue	Functionality Issue	Laboratory Information Management System (LIMS)	Closed	The services failed due to a temporary storage location being filled up after a Change was made against a biochemistry test set. A removal of all of the reference ranges applied as part of the change was undertaken which restored service
4166115	16/05/2018 07:40	canisc down? message telling me file doesn't exist	Service Unavailable	Canisc	Closed	A failure of a number of Citrix servers following a SQL blip were identified as the root cause, which caused some users to be unable to access the system. Disconnecting those affected users, and getting them to reconnect restored access
4167272	15/05/2018 11:25	ESC LIMS has reached concurrent application limit	Service Unavailable	Laboratory Information Management System (LIMS)	Closed	The Citrix servers ran out of capacity meaning the the servers were running at 100%, and subsequently failing. All users sessions were ended on the impacted servers, and the servers were restarted which restored access
4169168	17/05/2018 08:36	Canisc slow and appears unstable	Functionality Issue	Canisc	Closed	An ongoing Issue with storage, and the rollout of a security patch, impacted the system, causing performance issues and loss of access. Re-applying the security patch across the entire Canisc infrastructure, and undertaking changes identified by the supplier on the storage network restored service
4229394	17/06/2018 05:35	OOH LIMS Support	Unclassified	Laboratory Information Management System (LIMS)	Closed	Following a planned failover of the WLIMS system, an Issue with the Journal which impacted the WLIMS database. A fix was applied by the supplier which restored access
4232870	18/06/2018 18:10	OOH LIMS Support	Unclassified	Laboratory Information Management System (LIMS)	Closed	Following a planned failover of the WLIMS system, corruption of an index master table impacted user access. A rebuild of the master table by the supplier restored access
4271736	07/07/2018 08:35	OOH LIMS Support	Unclassified	Laboratory Information Management System (LIMS)	Closed	A configuration issue was identified by the supplier where the server settings in one data centre did not match those in the second data centre. These were reconfigured to match and access to the service was restored
4283261	13/07/2018 09:19	Canisc - General Issue	Functionality Issue	Canisc	Closed	The deployment of an anti-virus patch which blocked access to around 200 servers across the National Data Centres was identified as the root cause. The patch was uninstalled and access to service was restored
4284620	13/07/2018 13:25	CANISC ERROR HANDLER	Functionality Issue	Canisc	Closed	The SQL database failed over to the secondary server. Root Cause investigations identified that this was mistakenly failed over, following maintenance work which was being undertaken on a similarly named management server. Restoration of the server and a failover was undertaken to restore service
4303277	24/07/2018 07:20	Users cannot access Canisc	Functionality Issue	Canisc	Closed	It was identified that the Citrix Listener was offline, causing the SQL databases to lose synchronisation. A reboot of the node restored access to the listener, and then a manual synchronisation of the databases restored access to users

**Grwp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Economy, Skills and Natural Resources Group**

Cyfarwyddwr Cyffredinol - Director General



**Llywodraeth Cymru
Welsh Government**

Nick Ramsay AM
Chair
Public Accounts Committee

15 August 2018

Dear Chair

I am responding to your letter of 18 July in which you requested clarification of our response to a number of the recommendations in the Committee's report on the Welsh Government's initial funding of the Circuit of Wales project. I will address each of your points in turn.

I can confirm all of the recommendations within the Committee's report were accepted. In your letter, you specifically highlight our response to Recommendation 3, subsequently revised to Recommendation 1. This recommendation contains a number of elements. While I am content that there are appropriate controls in place to evidence value for money for the majority of our projects, I do accept that controls need to be strengthened to ensure value for public money in specific circumstances – for example, projects where contracts have not been exposed to competition or where payment is not dependent on delivery. This would include projects where there are linked companies or retainers being paid. We will take action to strengthen specific controls in those instances.

We have already implemented increased controls for funding provided via the Business Finance grant and raised the importance of checking linked companies when providing funding.

Escrow Account

You have asked about the timing of Welsh Government actions to recover the funds placed in the escrow account for the purchase of land.

Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd/Cardiff
CF10 3NQ

The escrow deposit issue was highlighted in the AGW's report in April 2017 and lead officials were subsequently requested to investigate whether funds could be recovered by Welsh Government, either from the escrow account or Heads of the Valleys Development Company (HOVDC). At that time, the project remained a live proposal and the developers had ambitions to deliver the project without Welsh Government support. As such, and as the contract between HOVDC and the Marquis of Worcester for the land purchase was not due to expire until the end of December 2017, Welsh Government did not consider it appropriate to pursue any recovery action at that point.

In June 2018, officials requested the formal contract for the purchase of the land from Geldards in order to clarify the position regarding the escrow account. Geldards were the lawyers undertaking the legal due diligence on the Circuit of Wales project on behalf of Welsh Government.

The contract was provided to officials by Geldards in late June 2018. At that time, Geldards also informed Welsh Government officials the entire contract had been shared by HOVDC in February 2016, as part of a large volume of documents placed in an electronic data room in order to facilitate the legal and technical due diligence of the project. Although the contract between HOVDC and the Marquis of Worcester was included in this data room, it was only accessible by a limited number of people in order to maintain commercial confidentiality. Welsh Government officials with access were not aware the contract was amongst the documents provided.

The content of the contract for the purchase of the land was reviewed by officials on its receipt from Geldards in June 2018. The contract refers to an initial payment of £200,000 from the buyer (HOVDC) to the seller (Marquis of Worcester), £100,000 of which was released immediately to the seller, with the balance of £100,000 to be held in an escrow account by the seller's conveyancer until completion of the deal or the end of the contract period. The contract states that the seller has no liability to repay the monies held in escrow except in the event of seller default. As HOVDC were unable to complete the purchase by the end of December 2017, the contract lapsed and the seller's solicitor released the remaining £100,000 to the seller as required by the contract.

We have taken legal advice on this matter which confirms that £200,000 was expended in relation to the acquisition of the land, that payments were in accordance with the purchase contract, that the initial payment of £100,000 was not refundable in any circumstance and that the further £100,000 held in the escrow account would not have been repayable to HOVDC other than in the event of seller default, which did not occur. On that basis, neither the £200,000 nor any part of it is repayable to HODVC or subsequently, to the Welsh Government. Delay in dealing with this escrow issue did not therefore adversely impact on the Welsh Government's ability to recoup the funding.

The points made in the AGW's report about returnable deposits are still accurate but the detail of the entire contract provided by Geldards in June 2018 increased the understanding of both

Welsh Government officials and Wales Audit Office staff. Having seen the contract, it is now understood that the deposit was repayable only in the event of a seller default, not a buyer default.

The contract was not provided to the Welsh Government officials who provided oral evidence to the Committee in June 2017, and they were not aware that the document had previously effectively been made available to the Welsh Government in the data room. The information provided by Welsh Government officials to PAC at the evidence session in June 2017 was given in good faith and there was no intention to withhold evidence or mislead the Committee.

Legal advice has also been taken as to whether any of the Property Development Grant (PDG) could be clawed back by the Welsh Government but no grounds have been identified for doing so.

Welsh Government accepts that the full contract for the purchase of the land should have been obtained from HOVDC and recorded prior to any payment of the PDG. Lessons have been learnt from this investigation and increased controls will be implemented when escrow is used to ensure all appropriate evidence is obtained from funding recipients in a timely manner, so that we have a full understanding of the agreement to which it relates and ensure funding conditions provide for appropriate recovery.

Recommendation 6

You asked for the number of instances there have been in recent years in which officials have raised concerns about instructions from authorising officers to make payments. Following the debate in the chamber on 11 July 2018, the Cabinet Secretary for Economy and Transport issued a letter, dated 27 July, to you on this topic. A copy of the letter is attached (Annex 1) and details the processes available for officials to raise concerns of this type. The whistleblowing process was reviewed and strengthened in 2015/16 to increase the robustness of the process. The table below details the number of cases considered by the whistleblowing process since 2015/16.

Financial Year	Number of cases considered
2015/16	4
2016/17	6
2017/18	4

Recommendation 13

You asked about the degree of security the Welsh Government is expecting to achieve to safeguard its £7.3m debt from HOVDC arising from the Welsh Government loan guarantee.

The Welsh Ministers currently have a fixed and floating charge over the assets of HOVDC and all its subsidiaries. HOVDC has entered into a Company Voluntary Arrangement (CVA) with

its non-secured debtors and has insufficient assets to enable the Welsh Government to recoup its debt. The debt to Welsh Government is estimated to be £12.62m in July 2018. It is likely that Welsh Government will only be able to recoup a very small proportion of the debt if the status of the company remains unchanged.

To date, no formal request has been received from any prospective developers to release our security from HOVDC. If such a request was to be received, then the Welsh Government would expect either a significant financial contribution or a financial stake in the organisation requesting release of the security. Due consideration would be given to the type of financial stake offered, its status and priority relative to other investors and creditors, and the implications for the level of security provided to the Welsh Government. In such circumstances, expert advice would be sought.

Yours sincerely



ANDREW SLADE
Director General
Economy, Skills and Natural Resources

Ken Skates AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AM
Chair
Public Accounts Committee

27 July 2018

Dear Nick

I am writing following the debate in the chamber on 11th July on the Public Accounts Committee's report on the Welsh Government's initial funding of the Circuit of Wales project.

In my response I agreed to write to you with further information with regard to Recommendation 6 of the report outlining how many instances there have been in recent years where concerns about instructions from authorising officers to make payments have been raised, and some explanation of how these processes have proven to be robust.

Staff have a number of options of how to raise concerns should they arise, starting with their own line manager. If the member of staff does not feel comfortable raising concerns with their own line manager and wishes to proceed on an informal basis then they can discuss the matter further up the management chain, with an HR or Finance Adviser, with their Trade Union representative or with the Director of Governance, HR Director or Finance Director.

The Welsh Government also has a formal Whistleblowing Panel where concerns can be raised via one of the nominated officers of the Panel. The Whistleblowing policy and processes are regularly reviewed to ensure that they are robust and comply with the Public Interest Disclosure Act 1998.

Approaches to the Panel are recorded however we do not keep statistics on issues raised through informal channels. The Whistleblowing statistics are published annually in the Welsh Government Accounts (<https://gov.wales/about/civilservice/how-we-work/facts-figures/ourfinance/welsh-government-consolidated-accounts/?lang=en>).

Ken Skates AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 131

Eitem 4.6

Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Health and Social Services Group



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

16 Awst 2018

Annwyl Mr Ramsay,

Rheoli meddyginiaethau

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 19 Gorffennaf yn gofyn am eglurhad ynghylch nifer o faterion a nodwyd yn ymateb Gweinidogion Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Rheoli Meddyginiaethau.

Rwy'n croesawu cydnabyddiaeth y Pwyllgor o'r cynnydd da a gafwyd wrth weithredu'r argymhellion a wnaed yn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru 2016. O ran y materion penodol yr ydych yn eu codi, rwy'n gobeithio y bydd y Pwyllgor yn deall y bu nifer bach o argymhellion y tro hwn lle'r oeddem wedi gwrthod y camau penodol yr oedd y Pwyllgor yn eu ffafrio, a hynny er inni gytuno â bwriad yr argymhellion eu hunain. Bu llawer o bwysu a mesur wrth benderfynu a ddylid derbyn neu wrthod yr argymhellion hyn, ac rwy'n falch felly o gael cyfle i roi eglurhad o'r pwyntiau penodol a nodir yn eich llythyr.

Rwy'n hyderu bod yr wybodaeth ychwanegol yn Atodiad A yn egluro'r sefyllfa mewn perthynas â'r argymhellion penodol yr ydych yn tynnu sylw atynt.

Yn gywir

Dr Andrew Goodall

copïau at: Andrew Evans, Prif Swyddog Fferyllol, Llywodraeth Cymru
Blwch Postio CGU
Blwch Postio'r Cabinet



Atodiad A

Eglurhad o ymateb Gweinidogion Cymru ar 2 Gorffennaf 2018, mewn perthynas ag adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Reoli Meddyginiaethau

Argymhelliad 1: Bod Llywodraeth Cymru yn llunio adroddiad blynyddol yn manylu gwybodaeth am welliannau yn rheoli meddyginiaethau ar draws y Byrddau Iechyd, i gynyddu atebolrwydd a sicrhau bod proffil rheoli meddyginiaethau yn parhau i fod yn uchel ar agenda Byrddau Iechyd.

Ein dehongliad ni oedd bod yr argymhelliad hwn yn deillio o argymhelliad tri yn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru a oedd yn cynnwys y canlynol: *“Mae angen proffil uwch ar ragnodi a rheoli meddyginiaethau mewn cyrff iechyd”*. Yn ein hymateb, roeddem yn cefnogi'n llwyr y safbwynt y dylai Bwrdd pob corff iechyd yng Nghymru graffu'n rheolaidd ar bob agwedd ar reoli meddyginiaethau.

Mae'n ymddangos o argymhelliad y Pwyllgor, ein bod yn cytuno'n llawn ar y canlyniad a ddymunir, sef bod Byrddau cyrff iechyd yn fwy ymatebol am wella'r modd y rheolir meddyginiaethau; gan hynny fe wnaethom dderbyn argymhelliad y Pwyllgor. Rwy'n deall efallai ein bod yn rhoi'r argraff nad ydym yn derbyn yr argymhelliad mewn gwirionedd, gan inni dderbyn yr argymhelliad ond ymateb mewn modd sy'n gwrthod y syniad bod Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu adroddiad ar reoli meddyginiaethau. Rwy'n gallu eich sicrhau nad felly yw'r sefyllfa. Ein bwriad yw codi proffil materion sy'n ymwneud â rheoli meddyginiaethau ar lefel Bwrdd. Rydym o'r farn mai'r ffordd fwyaf priodol o wneud hynny yw gwella adroddiad presennol Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru, drwy ehangu'r cynnwys a darparu gwybodaeth o adroddiadau ar fyrddau iechyd unigol, cyn cyhoeddi adroddiad blynyddol 2018-19.

Argymhelliad 4: Datblygu system rheoli data i olrhain nifer y fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol sy'n gweithio yng Nghymru, ac i gynllunio eu gofynion hyfforddiant.

O fis Hydref 2018, Addysg a Gwella Iechyd Cymru fydd yn gyfrifol am gynllunio ar gyfer anghenion y gweithlu yn y sector iechyd. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen i Addysg a Gwella Iechyd Cymru gynnal a datblygu'r gwaith o gasglu gwybodaeth a data am y gweithlu iechyd, gan gynnwys data ynghylch fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol.

Drwy sefydlu Addysg a Gwella Iechyd Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn dangos ei bod wedi ymrwymo i ddefnyddio a gwella dull gweithredu strategol ar gyfer cynllunio a chomisiynu'r gweithlu yn y dyfodol. Mae ein hymateb i'r Pwyllgor felly'n ymwneud â'r argymhelliad penodol ar gyfer datblygu cronfa ddata. Mater i Addysg a Gwella Iechyd Cymru fydd penderfynu sut mae'n cyflawni ei swyddogaethau, a gallai hynny fod drwy systemau newydd neu'n seiliedig ar y cronfeydd data presennol y cyfeirir atynt yn ymateb Gweinidogion Cymru i'r Pwyllgor.

Argymhelliad 7: Y defnydd o dechnoleg graff mewn perthynas â phecynnau er mwyn hwyluso'r defnydd diogel o feddyginiaethau heb eu hagor, a lleihau'r meddyginiaethau sy'n mynd yn wastraff.

Rydym yn falch bod y Pwyllgor yn cydnabod mai heriau sylweddol yw'r rheini sy'n gysylltiedig ag aildefnyddio meddyginiaethau. Hoffwn ymddiheuro os oedd yn ymddangos nad oedd ein hymateb yn talu digon o sylw i'r mater hwn. Gallaf eich sicrhau ein bod o'r farn bod gwastraffu meddyginiaethau'n fater difrifol iawn, ac mae gan y byrddau iechyd bolisiâu a systemau ar waith eisoes ar gyfer ceisio aildefnyddio meddyginiaethau pan fo hynny'n bosibl o fewn amgylchedd rheoledig ein hysbytai.

Fel y Pwyllgor, rydym yn cydnabod y bu galwadau yn ystod y blynyddoedd diweddar i aildefnyddio meddyginiaethau sydd wedi eu dychwelyd, ac rydym yn deall ei bod yn ymddangos y gallai aildefnyddio meddyginiaethau gynnig ateb i'r broblem o beth i'w wneud â'r meddyginiaethau hyn. Byddem yn anghytuno â'r gosodiad mai cadw'n dawel ar y cyfan yw ein hymateb i'r broblem o wastraffu meddyginiaethau.

Mae gwastraffu meddyginiaethau'n fater cymhleth, sydd fwyaf amlwg mewn perthynas â'r meddyginiaethau sy'n mynd yn wastraff ar ôl cael eu dychwelyd i fferyllfeydd. Serch hynny, mae'n debygol bod llawer mwy o wastraff yn digwydd yn sgil y cyfle cudd sy'n gysylltiedig â chostau rhagnodi a dosbarthu'n ddiangen, a rheoli clefydau mewn modd nad yw o'r ansawdd gorau gan arwain at afiachusrwydd y gellid fod wedi ei osgoi. Mae ymateb Gweinidogion Cymru ar 2 Mai yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

- Cynyddu atebolrwydd Byrddau o ran defnyddio meddyginiaethau'n effeithiol ar draws holl gyrff y GIG;
- Cynnal ymgyrch genedlaethol i godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o faterion yn ymwneud â rheoli meddyginiaethau, gan gynnwys meddyginiaethau sy'n mynd yn wastraff;
- Lleihau gor-ragnodi meddyginiaethau y gwyddys bod eu gwerth clinigol yn gyfyngedig; a
- Lleihau gor-archebu presgripsiynau drwy gynhyrchu casgliad o'r arferion gorau ar gyfer archebu presgripsiynau amlroddadwy, gan gynnwys archebu gan gartrefi gofal.

Mae'r camau gweithredu hyn a nodir yn ymateb Gweinidogion Cymru i argymhellion 1, 2, 11 a 12, ochr yn ochr â'n hymrwymiad parhaus i gynnwys fferyllwyr clinigol fel rhan annatod o dimau ymarfer cyffredinol, yn ffurfio ymateb i'r rhesymau sylfaenol sy'n peri i feddyginiaethau fynd yn wastraff.

Argymhelliad 5: Cynnal gwerthusiad o fferyllwyr clwstwr, yn benodol mewn perthynas â modelau cyllido a recriwtio.

Rydym yn cytuno'n llwyr ei bod yn werthfawr i fyrddau iechyd rannu'r hyn sydd wedi ei ddysgu a'r arferion gorau, ymhlith ei gilydd yn ogystal ag o fewn y byrddau unigol eu hunain. Mae fferyllwyr clinigol sydd wedi eu lleoli mewn ymarfer cyffredinol ym mhob rhan o Gymru, yn cael y cyfle i gyfarfod yn rheolaidd i rannu arferion gorau, drwy ddod ynghyd mewn cymuned ymarfer sydd wedi ei sefydlu gan Wasanaeth Gwella 1000 O Fywydau Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac sy'n cael ei goruchwyllo gan y gwasanaeth hwnnw.

Rôl Llywodraeth Cymru a'r byrddau iechyd yw sicrhau bod clystyrau gofal sylfaenol yn gwella iechyd a llesiant y dinasyddion y maent yn eu gwasanaethu. Er y gallai hynny gynnwys darparu cyfeiriad clir ynglŷn â'r mathau o ymyriadau a threfniadau sydd â hanes o

fod yn effeithiol, cyfrifoldeb y clystyrau yw penderfynu ar y trefniadau darparu mwyaf priodol. Mae rôl fferyllwyr clinigol mewn meddygfeydd yn helpu i wella diogelwch ac ansawdd arferion rhagnodi mewn gofal sylfaenol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fesur gwelliannau o'r fath drwy ddefnyddio'r set o ddangosyddion rhagnodi cenedlaethol yr ydym yn eu datblygu.

Materion eraill

O ran **argymhelliad 2**, Rydym wedi dod i gytundeb â'r holl fyrddau iechyd mai Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf fydd yn arwain y gwaith o gynnal ymgyrch i godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o faterion yn ymwneud â rheoli meddyginiaethau. Bydd y gwaith hwn yn seiliedig ar elfennau mwyaf llwyddiannus yr ymgyrch *Eich Meddyginiaethau Eich Iechyd*. Rydym wrthi'n trafod manylion yr ymgyrch a sut y bydd ei hynt a'i manteision yn cael eu monitro. Rydym bellach yn rhagweld y bydd y gwaith paratoi yn cael ei gwblhau yn ystod 2018-19, ac y bydd y trefniadau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd yn cael eu rhoi ar waith yn 2019-20. Byddaf yn cynnwys gwybodaeth bellach yn yr wybodaeth ddiweddarar yr ydym wedi addo ei darparu ar ddechrau 2019.

Gallaf eich sicrhau bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn cysylltu'n gyson â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru er mwyn bwrw ymlaen â'r achos busnes a'r cynllun gweithredu ar e-ragnodi fel y'u disgrifir yn **argymhellion 16 ac 17**. Pan oeddwn yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 6 Mawrth 2017, dywedais y byddai'r costau cyfalaf sy'n gysylltiedig ag e-ragnodi yn debygol o fod yn sylweddol, ac y byddai angen eu blaenoriaethu dros fuddsoddiadau eraill; yn y cyd-destun pwysig hwn yr ydym wedi ymrwymo i sicrhau bod yr achos busnes yn hollol briodol.

Bydd yr wybodaeth ddiweddaraf ar hynt y gwaith hwn ar gael ar ddechrau 2019.

Eitem 4.7

Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Economy, Skills and Natural Resources Group

Cyfarwyddwr Cyffredinol - Director General



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

20 Awst 2018

Annwyl Gadeirydd

Rwy'n ymateb i'ch llythyr dyddiedig 19 Gorffennaf lle gwnaethoch ofyn am ragor o wybodaeth am y gwasanaeth awyr oddi mewn i Gymru.

Er ei bod yn wir fod y cymhorthdal a delir i weithredwr presennol y gwasanaeth awyr yn uwch na'r cymhorthdal a dalwyd i'r gweithredwr blaenorol nid oes modd eu cymharu, a hynny'n rhannol am fod busnes y gweithredwr blaenorol wedi methu. O weld costau'r gweithredwr blaenorol, y referniw o ran teithwyr, y gorbenion a'r elw isel iawn mae'n bosibl fod lefel y cymhorthdal a dalwyd yn rhy isel er mwyn sicrhau gwasanaeth hyfyw, ar sail telerau cynaliadwy.

Cafodd y contract dros dro presennol ei ddyfarnu fel mater o frys, ac nid oes gennym amcangyfrif empirig o safbwynt gwerth y premiwm sy'n cael ei dalu am y trefniant dros dro. Adeg dyfarnu'r contract dros dro i Eastern Airways gwnaeth swyddogion gydnabod bod y cynnydd o ran costau'n deillio'n bennaf o natur tymor byr y contract treigl. O safbwynt gwerth am arian, fodd bynnag, daeth swyddogion i'r casgliad y byddai cost uwch y contract dros dro ag Eastern Airways (o'i chymharu â chostau'r contract Van Air) yn is na'r costau uwch tybiedig a fyddai ynghlwm wrth geisio ailddechrau'r PSO ar ôl i'r gwasanaeth ddod i ben dros dro. Roedd profiad blaenorol wedi dangos y byddai dod â gwasanaeth i ben dros dro yn debygol o achosi niwed hirdymor a sylweddol i'r daith, a byddai'n golygu bod angen ailddechrau denu teithwyr. Yn ogystal â hyn, ac fel rydych wedi nodi, mae Eastern Airways yn darparu o dan y contract dros dro y defnydd o awyren sy'n fwy na'r un a ddefnyddiwyd gan y gweithredwr blaenorol, a hefyd well rhwydwaith ar gyfer dosbarthu tocynnau a gwell gwasanaeth i deithwyr.

Rydym bellach wedi lansio proses gaffael agored a llawn ar gyfer y gwasanaeth awyr oddi mewn i Gymru ac rydym yn hyderus y bydd hyn yn galluogi'r farchnad i gystadlu ac ymateb yn briodol i'n cystadleuaeth. Nid ydym yn gwybod eto sut y bydd y cymhorthdal fesul teithiwr o dan y contract newydd yn cymharu â threfniadau'r contract presennol, nac ychwaith sut y caiff y trefniadau yn y dyfodol o ran cymhorthdal eu cyflwyno'n raddol. Bydd y manylion hyn yn dibynnu ar y prosesau tendro a'r prosesau trafod sydd ar y gweill.

Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd/Cardiff
CF10 3NQ

O ran yr wybodaeth arall rydych wedi gofyn amdani, mae'r contract ag Eastern Airways yn pennu uchafswm pris o £90 y ticed, a dylai o leiaf 60% o gyfanswm capasiti'r awyren gael ei werthu am y pris uchaf o £60. O fewn y cyfyngiadau hynny, sy'n anelu at sicrhau bod y gwasanaeth yn ddewis ymarferol at ddibenion teithio cymdeithasol, mater i'r cwmni awyren yw'r strategaeth brisiau. Rydym yn disgwyl i'r gweithredwr presennol ac unrhyw weithredwyr yn y dyfodol gydweithio â ni wrth i ni geisio cynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn.

Fel rhan o'r broses gaffael ar gyfer y contract newydd bydd gofyn i'r cynigwyr ddangos sut y maent yn bwriadu marchnata'r gwasanaeth. Caiff hyn ei asesu yn ystod y broses werthuso. Mae'r gwaith marchnata llawer gwell sy'n cael ei wneud gan Eastern Airways ar hyn o bryd yn tystio i effaith bositif strategaeth farchnata effeithiol ar nifer y teithwyr.

Yn olaf, gallaf gadarnhau nad yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi eto gostau cymhorthdal fesul teithiwr, gan ein bod wedi nodi y byddem yn ymateb i adroddiad blaenorol y Pwyllgor ar y gwasanaeth awyr. Deallaf mai camgymeriad oedd hyn a chaiff ei gywiro. Mae'r costau cymhorthdal fesul teithiwr sydd wedi'u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru am y ddwy flynedd ddiwethaf fel a ganlyn:

	Cyfanswm y cymhorthdal	Teithwyr	Cymhorthdal fesul teithiwr
2016/17	£1.08m	10,039	£108
2017/18	£1.84m	13,845	£133

Caiff yr wybodaeth hon ei diweddarau'n flynyddol o hyn ymlaen, ar y cyd ag asesiad o'r gwerth am arian y mae'r gwasanaeth yn ei gynnig.

Yn gywir



ANDREW SLADE

Cyfarwyddwr Cyffedinol

Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol

Eitem 4.8

Tracey Burke

Cyfarwyddwr Cyffredinol / Director General

Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Education and Public Services Group



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

21 Awst 2018

Annwyl Mr Ramsay,

Ynglŷn â: Dilyniant i gyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 25 Mehefin: Rhaglen Addysg ac Ysgolion yr 21ain Ganrif

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 24 Gorffennaf 2018 lle godoch rai materion i'w hegluro yn dilyn y cyfarfod craffu ar 25 Mehefin.

Rwy'n falch o amgáu papur sy'n rhoi ymateb i'r meysydd a amlinellwyd gan y Pwyllgor sydd wedi'i lunio gyda mewnbwn cydweithwyr ar draws Llywodraeth Cymru.

Rwy'n nodi eich cais am ddiweddariad ar Fand B ym mis Ionawr 2019, gan gynnwys y materion yn yr ymateb hwn ac argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol, yn ogystal â diweddariad ynglŷn â sefyllfa Band A ar y pwynt hwnnw.

Yn gywir,

Tracey Burke

Cyfarwyddwr Cyffredinol, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus



**BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE**

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan • website:
www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

YMATEB YSGRIFENEDIG I'R PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS

RHAGLEN ADDYSG AC YSGOLION YR 21^{AIN} GANRIF

Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi ymateb cychwynnol i lythyr Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 25 Mehefin sy'n nodi meysydd penodol lle byddai'r Pwyllgor yn dymuno cael sicrwydd pellach.

Model Buddsoddi Cydfeddiannol (MBC)

Nodwn fod prif bryderon y Pwyllgor yn ymwneud â'r Model Buddsoddi Cydfeddiannol (MBC). Teimlai'r Pwyllgor fod anghysondeb yn y dystiolaeth ynghylch a oedd gan y MBC fandad i'r sector Addysg Bellach, gan ddyfynnu Colegau Cymru mai'r MBC oedd "yr unig opsiwn" ar gyfer y prosiectau mwy.

Fel ymateb, byddem yn pwysleisio'n gryf bod cyfalaf yn parhau'n opsiwn i awdurdodau lleol a Sefydliadau Addysg Bellach (SAB) ar gyfer pob prosiect mawr, gan ein bod yn buddsoddi tua £1.8 biliwn o arian cyfalaf traddodiadol ym Mand B, (cyfraniad o 50% gan Lywodraeth Cymru a 50% gan ein partneriaid cyflenwi) y bydd y MBC yn ei ategu yn hytrach na'i ddisodli.

Yn sicr, nid yw'r MBC wedi cael ei orfodi. Rhoddwyd yr opsiwn i bob rhanddeiliad o fewn eu rhaglenni amlinellol strategol ar gyfer Band B ddewis a oeddent am gyflawni eu cynlluniau drwy'r MBC neu Gyfalaf. Mewn gwirionedd, mae'r MBC ond yn addas ar gyfer prosiectau adeiladu sy'n 100% newydd ar gyfer ysgolion prif ffrwd a Sefydliadau Addysg Bellach, oherwydd y rhwymedigaeth ar y contractwr i ddylunio, adeiladu, ariannu a chynnal yr adeilad dros ugain mlynedd.

Mewn rhai achosion, dewiswyd opsiwn y MBC gan randdeiliaid oherwydd bod eu cyllidebau cyfalaf yn gyfyng. Mewn achosion eraill, mae awdurdodau lleol a Sefydliadau Addysg Bellach yn gweld mai'r budd hir dymor yw'r gwaith cynnal a chadw a'r cylch oes a ddarperir o dan gontract y MBC. At hynny, mae cyfraniad Llywodraeth Cymru o 75% ar gyfer y MBC yn apelgar i awdurdodau lleol a Sefydliadau Addysg Bellach o'i gymharu â chyfraniad Llywodraeth Cymru o 50% ar gyfer cyfalaf, ac mae hyn yn mynd rhywfaint o'r ffordd i egluro'r nifer fawr sy'n manteisio ar y MBC yn y sector Addysg Bellach..

Rydym yn cydnabod bod angen gwneud mwy o waith i egluro dull gweithredu a manteision posibl y MBC i awdurdodau lleol a Sefydliadau Addysg Bellach a allai elwa ar gyllid y MBC. Mae'n fodel a gynlluniwyd gydag ychwanegedd fel ei *raison d'être*. Byddem i gyd am weld mwy o gyfalaf, fel y nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ei thystiolaeth i chi. Ond gyda chyfyngiadau parhaus ar ein cyllideb gyfalaf gan Lywodraeth y DU, mae ein opsiynau yn golygu byw o fewn y gyllideb honno neu i arloesi a gwneud mwy. Rydym wedi dewis yr olaf. Os bydd awdurdodau lleol a Sefydliadau Addysg Bellach yn gwneud yr un dewis - a'u dewis nhw yw hynny mewn gwirionedd - byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i'w helpu i lwyddo gyda'u cynlluniau MBC.

Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd ar dri o feysydd mewn perthynas â'r MBC a phu'n ai a yw'n cynnig y gwerth gorau:

Roedd yr opsiynau eraill - benthycy cyfalaf a benthycy â chymorth wedi cael eu hystyried yn llawn cyn cychwyn ar fodel newydd a allai fod yn ddrutach â mwy o risg.

O ran y cwestiwn ynghylch a yw'r benthycy cyfalaf a benthycy â chymorth wedi "eu hystyried yn llawn" o safbwynt cyllidebol, mae gan fenthycy â chymorth yr un effaith â chyfalaf traddodiadol. Nid yw'n ychwanegol. Nid yw felly'n cynnig opsiwn apelgar i fynd ar drywydd buddsoddiad sylweddol ychwanegol i'r Rhaglen.

Fel y dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yn glir yn y Cynulliad, bydd Llywodraeth Cymru wastad yn defnyddio cyfalaf confensiynol yn gyntaf i ariannu seilwaith cyhoeddus, gan sicrhau ei bod yn defnyddio pob ceiniog ohoni. Nesaf, rydym yn defnyddio'r holl gyfalaf a gawn drwy'r cronfeydd Ewropeaidd sy'n dod i Gymru. Yna byddwn yn gwneud defnydd o'r pwerau benthycy cyfalaf newydd - mae ein cyllideb yn dangos y byddwn yn defnyddio'r holl fenthyciadau cyfalaf sydd ar gael i ni dros gyfnod y gyllideb nesaf. Yna byddwn yn ceisio galluogi cyrff yng Nghymru i fuddsoddi. Pan fyddwn wedi defnyddio'r holl gamau gweithredu uchod, mae gennym anghenion cyhoeddus o bwys na ellir eu cwmpasu o hyd. Dyna'r union reswm pam rydym wedi creu'r MBC - i wneud mwy.

Yn 2010, ar ddechrau'r Rhaglen, amcangyfrifwyd bod angen tua £5 biliwn i gael y stoc adeiladau ysgolion i gyflwr da. Mae ychwanegu'r MBC yn ein galluogi i gyflymu buddsoddiad o £500 miliwn sydd wedi'i dargedu, yn bennaf, yn yr ardaloedd mwyaf anghenus (hynny yw, yr adeiladau sy'n y cyflwr gwaethaf) na fyddai fel arall yn digwydd am gryn amser oherwydd cyfyngiadau yn y cyllidebau cyfalaf.

Wrth ymateb i'ch sylwadau bod y MBC yn "newydd" ac "yn cynnwys elfen o risg", nid yw hon yn farn a rennir gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn cynghori bod y MBC yn ymgorffori'r gorau o fodel Dosbarthu Di-elw yr Alban - megis dyraniad risg optimwm, costio oes gyfan, a thaliadau sy'n seiliedig ar berfformiad – tra'n sicrhau bod buddsoddiadau newydd yn cael eu dosbarthu i'r sector preifat; ac felly mae'n ychwanegiad go iawn i fuddsoddiadau o ffynonellau cyhoeddus eraill. At hynny, mae'r ffordd o weithio, a brofwyd yn y farchnad mewn dau ddigwyddiad ymgysylltu mawr yn 2017, yn cael ei hystyried yn ddibynadwy gan gontractwyr a chyllidwyr fel ei gilydd.

Bod Llywodraeth Cymru yn ei gyfanrwydd wedi nodi mai'r rhaglen adeiladu ysgolion yw'r rhaglen fwyaf priodol ar gyfer defnyddio'r MBC. Yn benodol, bod yna asesiad clir na fyddai pwerau benthycy Llywodraeth Cymru yn cael eu defnyddio'n well ar gyfer adeiladu ysgolion a'r MBC ar gyfer cynlluniau adeiladu ffyrdd, fel ffordd liniaru'r M4.

Gallwn gadarnhau bod 'Llywodraeth Cymru drwyddi draw wedi nodi mai'r rhaglen adeiladu ysgolion yw'r rhaglen fwyaf priodol ar gyfer defnyddio'r MBC', ochr yn ochr â chwblhau gwaith deuli'r A465 ac ailddatblygu canolfan ganser Felindre. Cafodd y cynlluniau i'w cynnwys yn y MBC eu cytuno gan y Cabinet cyn lansio'r model yn y Cynulliad ym mis Chwefror 2017.

Bod cyfnod 'o oedi ac adolygu' priodol. Dros amser, am resymau dealladwy, mae'r uchelgais gwreiddiol i ddefnyddio math o fodel Dosbarthu Di-Elw wedi newid yn sylweddol. Hoffem gael sicrwydd, gan fod y manylion wedi'u cwblhau a chyn ymrwymo i symud ymlaen, y bydd cyfle i feddwl ynghylch a yw'r MBC yn cynnig gwerth da am arian ar gyfer adeiladu ysgolion a cholegau.

Rydym yn cydnabod bod cael cyfnod o 'oedi ac adolygu' cyn symud ymlaen gyda mentrau newydd ac arloesol yn gwneud synnwyr. Gallwn eich sicrhau ein bod wedi cymryd nifer o gyfleoedd i oedi ac adolygu datblygiadau gyda'r MBC ers penderfyniadau andwyol y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gynlluniau NPD yr Alban yn 2015. Treuliwyd y flwyddyn ganlynol yn datblygu'r MBC, gan sicrhau bod y model yn cael ei adolygu gan gyfoedion oedd yn arbenigwyr yn y Banc Buddsoddi Ewropeaidd, cyn ei gyflwyno i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn Hydref 2016. Ar ôl derbyn sicrwydd y byddai'r model yn cael ei ddosbarthu i'r sector preifat, fe wnaethom oedi unwaith eto, wrth i ni gael sicrwydd pellach gan Eurostat - proses oedd yn golygu dros flwyddyn bellach o adolygu.

Ni fydd y broses adolygu yn gorffen gyda chadarnhad Eurostat o benderfyniad y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Rydym eisiau parhau i ddysgu a datblygu'r model. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid wedi dweud dro ar ôl tro y dylai hyrwyddo lles y cyhoedd a gwerth am arian fod wrth wraidd y MBC. Y prawf go iawn o werth am arian fydd y prosiectau unigol rydym yn gysylltiedig â nhw - pa mor effeithlon rydym yn eu datblygu a'u caffael, ac yn rheoli'r manteision yn yr hir dymor. Bydd ein agwedd at y pethau hyn yn cael ei brofi'n drwyadl drwy adolygiad adrannol o achos busnes pob prosiect, drwy adolygiadau annibynnol Gateway y Llywodraeth, a thrwy'r gwiriadau Pwynt Cymeradwyo Masnachol (PAC) rydym wedi'u datblygu yng Nghymru fel haen ychwanegol o graffu adeiladol i dimau'r prosiect.

Meysydd Eraill

Cyfweliadau	Buom yn cyfweld ag ystod o staff ym mhob bwrdd iechyd, gan gynnwys swyddogion gweithredol, uwch reolwyr, rheolwyr gweithredol, arweinwyr clinigol a staff gweithredol. Ar raddfa genedlaethol, buom yn cyfweld ag ystod o staff o Lywodraeth Cymru, Rhaglen 111, yr Uned Gyflawni, cyrff sy'n cynrychioli clinigwyr y tu allan i oriau, a Fforwm Gwasanaethau y Tu Allan i Oriau Cymru Gyfan.
Arolygon staff gwasanaethau y tu allan i oriau	Cynhaliom arolwg ar-lein o'r holl staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth meddyg teulu y tu allan i oriau. Cawsom ymateb gan 408 o bobl.
Arolwg cleifion	Cynhaliom arolwg post o 1,990 o gleifion wedi'u dewis ar hap yng Nghymru a oedd wedi cysylltu â'r gwasanaeth y tu allan i oriau ar unrhyw un o'r dyddiadau a ganlyn: 12, 13, 16, 17, 18 Gorffennaf 2016. Cawsom ymateb gan 330 o gleifion, gan greu cyfradd ymateb o 16.6%.
Arolwg Aelodau'r Bwrdd	Yn rhan o'n gwaith ar yr asesiad strwythuredig, cynhaliom arolwg o aelodau Bwrdd y GIG Cafodd ambell gwestiwn yn gysylltiedig â gwasanaethau y tu allan i oriau ei gynnwys yn ein harolwg.
Adolygiad o wefannau'r bwrdd iechyd	Buom yn adolygu gwefannau'r byrddau iechyd i asesu effeithiolrwydd yr wybodaeth a ddarperir ynghylch sut a phryd i gyrchu gwasanaethau y tu allan i oriau.
Siopa cudd: Llinellau ffôn a gwefannau practisau meddyg teulu	Ffoniwyd sampl o 10 practis ym mhob Bwrdd Iechyd ar ôl amseroedd cau'r practisau. Aseswyd neges y ffôn ateb er mwyn canfod pa mor effeithiol ydoedd am ddarparu gwybodaeth i gleifion. Buom hefyd yn asesu gwefannau practisau meddyg teulu er mwyn asesu'r cyfeiriadau at y gwasanaeth y tu allan i oriau.

Atodiad 3 – Safonau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau

Dangosyn 13 – Safonau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau

Safon	Crynodeb o'r gofynion
Safon 1. Sicrhau bod gwasanaethau yn ymateb yn brydlon	Mae'r safon hon yn trafod prydlondeb negeseuon rhagarweiniol, derbyn galwadau, apwyntiadau ac atgyfeiriadau i wasanaethau eraill.
Safon 2: Hygyrch	Dylid cael un rhif ffôn ar gyfer pob ardal bwrdd iechyd, a dylai cleifion allu cyfathrebu yn eu hiaith eu hunain. Dylid darparu ar gyfer pobl ag anableddau a namau ar y synhwyrâu, a dylai'r rhai sy'n derbyn galwadau gael gwybodaeth gyfredol er mwyn gallu cyfeirio cleifion i wasanaethau eraill.
Safon 3: Hyddysg	Dylai staff dderbyn gwiriad cyn cyflogi a dilyn rhaglen gynefino. Dylid cynnal adolygiad blynyddol o hyfforddiant, ac arfarniadau blynyddol. Dylai gwasanaethau hefyd gael mynediad at hanes meddygol cleifion.
Safon 4: Effeithiol	Dylai asesiadau clinigol fod yn gyson â chanllawiau cenedlaethol. Dylai gwasanaethau ddefnyddio methodoleg gwella ansawdd i ddysgu yn sgil pob digwyddiad o bwys. Fel isafswm, dylai'r gwasanaeth archwilio 1% o gysylltiadau clinigol, ac isafswm o 4 achos fesul clinigydd bob blwyddyn.
Safon 5: Gofal diogel	Dylai gwasanaethau wneud trefniadau ar gyfer rheoli risg, llywodraethu, atebolrwydd, ymdrin â chwynion ac adrodd am ddigwyddiadau difrifol. Dylai gwasanaethau sicrhau bod gwybodaeth berthnasol am gleifion yn cael ei throsglwyddo i'w meddygfa. Yn ôl y safonau, dylid cydymffurfio â fformiwlari gwrthfotigau lleol a sefydlu polisi ar gyfer cyffuriau dan reolaeth.

Safon	Crynodeb o'r gofynion
Safon 6: Cyson	Dylai gwasanaethau fod yn hyblyg i fodloni cyfnodau lle mae'r galw yn uchel, drwy ddefnyddio cynlluniau parhad busnes ac uwchgyfeirio. Dylid cynllunio ar sail 4 ymgynghoriad fesul awr ar gyfer apwyntiadau wyneb yn wyneb.
Safon 7: Derbyniol	Dylai gwasanaethau gael polisïau ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth, hawliau dynol, urddas a pharch. Dylai gwasanaethau ddangos eu bod yn ystyried barn cleifion.
Safon 8: Perthnasol	Dylid sefydlu a chytuno ar lwybrau clinigol â grwpiau amrywiol o randdeiliaid.
Safon 9: Effeithlon	Dylid sicrhau gonestrwydd ariannol, a dylai gwasanaethau fod yn gost-effeithiol.

Ffynhonnell: crynodeb Swyddfa Archwilio Cymru o Safonau Chwarterol a Monitro Cymru ar gyfer Cyflenwi Gwasanaeth y Tu Allan i Oriau, 2014.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk

Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk

Gwefan: www.wao.gov.uk

Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Health and Social Services Group



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mr A Crompton
Auditor General
Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff, CF11 9LJ

1 August 2018

Dear Mr Crompton

Primary Care Out of Hours (OOHs) Services – All Wales Summary Report

Thank you for providing a copy of the above report which you published on 12 July 2018. I accept it is a challenging, and yet largely balanced report, which reflects the very difficult environment within which OOHs operates. The report does, however, need to be seen in the context of workforce issues in the 'out-of-hours' period that are commonly felt across the UK, and not just in Wales.

The recommendations in the report call for greater involvement and leadership from both the Welsh Government and the NHS in the transformation of urgent primary care. The recommendations place an expectation on Welsh Government to lead a range of work, working with health boards, who have a statutory responsibility for the delivery of primary care services in the 'out of hours' period.

While the majority of the field work was concluded at least 12 months ago, Welsh Government recognises the OOH service is still fragile. It is ready to make a strong commitment to improve it, and has begun to do so through the following:

- The next few months will see a Peer Review process for OOHs being supported both by Welsh Government and the service. The Peer Reviews are clinically led learning sessions to support change. Seven workshops will be held across all LHAs over the autumn period to better understand the issues and develop an action plan, with workforce being the central component.
- The establishment of a national strategic lead, Judith Paget, CEO at ABUHB, will help to drive the strategic direction of the OOH service. This brings with it an opportunity to bring primary care, 111 and OOHs under the leadership of a single Senior Responsible Officer (SRO).



- The 111 service in Wales is being rolled out and the work plan for 2018-19 and 2019-20 was agreed by the 111 Implementation Board recently. 2018-19 will see the remainder of Hywel UHB, Powys and Aneurin Bevan UHB all 'going live' with 111 in their localities, and work with North Wales to develop a clinical support hub to better support the OOH service over the winter period, ensuring that patients have better access to expert advice and treatment.

I know the WAO reviewed OOH services at the local level last year, and that each health board received their individual report. Health boards have a statutory responsibility for the delivery of primary care services, and will have worked to address the issues raised. Their board's will have monitored progress through their quality and safety committees and it is pleasing to acknowledge that OOHs has begun to feature more strongly in the winter plans, in Joint Executive Team meetings, and during regular performance scrutiny.

I welcome this report. It is challenging but it will help us focus on what is a priority and drive forward the changes and improvements for the OOH services in Wales that are required.

General

The WAO patient survey revealed 'generally positive views about the OOH service where 'half of all respondents rated the service as excellent and 89% as excellent or very good'. While the report highlights the fragility of the service, I am pleased that we are beginning to address the areas highlighted in the recommendations.

While the report focusses on the 'Out of Hours' service, our future direction of travel will look at the provision of, and access to, a wider range of services in the out of hours period, and also the 24/7 model for primary care.

The transformational model for 24/7 primary and community care is key to these improvements. The model will be supported with a multi disciplinary team (MDT). The MDT will work to support patients, aim to deal effectively with unplanned care needs to enable people to remain at home wherever possible, and provide more support to enable faster discharge when people do need secondary care.

We are also developing a new *Policy Framework for Unscheduled Care* to set out the government's expectations and ambitions for unscheduled care in Wales. Much has changed in the ten years since the publications of *Delivery Emergency Care Services (DECS)* in 2008, and this will provide an opportunity to set out how OOHs services can be further integrated into the new offer of 24/7 primary care.

Funding

The **notional** funding described in the WAO press release relates to the funding repatriated as part of the new GMS contract agreed in 2004. The report stated that this had not changed in the intervening period. While this may be accurate technically in terms of the defined national budget, it is not accurate in terms of actual expenditure; in 2017/18 LHBs actually spent £35.8m on Out of Hours delivery compared to the notional allocation of £28.7 – approximately 25% more than the notional funding (noted in paragraph 1.17).

*Funding

	<u>Allocation (2004)</u>	<u>17-18 Audited spend</u>
ABMU HB	£4.533m	£5.066m
AB HB	£4.736m	£6.613m
BCU HB	£7.169m	£7.222m
C&V UHB	£3.048m	£3.768m
CT HB	£2.447m	£3.211m
H Dda HB	£4.826m	£6.913m
Powys HB	£1.980m	£3.034m
Total	£28.739m	£35.826m

There are eight recommendations in the report and I have taken the opportunity to consider and respond to each of these in turn.

Recommendation 1 - Access to OOHs and it's scope

In parallel with the national roll out of the 111 telephone service, the Welsh Government should lead work to standardise the way that NHS websites, GP phone lines and other NHS information sources refer and signpost out-of-hours services. The work should also aim to provide a clear, nationally agreed definition of the scope of out-of-hours services and the circumstances in which the public should access them.

The roll out of 111 provides an opportunity to simplify the message to the public about how they access care at times of unexpected need. The 111 number is easy to remember and free to use, both of which benefit the patient.

GPC Wales has agreed to improve the standard of messaging on GP practice answerphones, to help direct people to the most appropriate place when their surgery is closed. Welsh Government, working with the NHS, is developing guidance to clarify of key points that should be included in answerphone message to provide greater consistency across Wales.

Technological changes are happening fast and work is underway, through the 111 programme, to replace the current OOH IT system with a new pan Wales system. The procurement of this system has started and is due to conclude at the end of 2019. In 'A Healthier Wales' we outlined how digital is a key enabler of transformational change and set out our ambition to provide an online digital platform for citizens. This will provide people with a new, digital way of accessing health and care services and information, enabling them to become more active participants in their own health and well-being. A key aspect of this will be the single National Directory of Services across health, social services and the third sector, which will help citizens make informed choices by signposting users to the most appropriate service for their needs, including OOHs. An 'App' to support this is currently being developed.

With the work to develop a 24/7 primary care model, it becomes increasingly important to define 'urgent primary care' and to re-shape the approach to 'Out of Hours' services. This has been picked up through the National Urgent Care Group and the National Primary Care Board. Improving access and reducing the pressure in other parts of the unscheduled care

system is a key objective, and options to address this at the GP Cluster level are being explored with GPC Wales.

Recommendation 2 - OoHs Standards and an Annual Report

The Welsh Government is carrying out work to update the national standards for out-of-hours, to make sure that the standards fit with the new ways of working between 111 and out-of-hours. The Welsh Government should introduce an annual report to describe the health boards' progress in implementing the new national standards.

The NHS and Welsh Government are working together in a clinically led process to redefine and finalise the national standards for 111. This will ensure they are clinically focused, outcome driven and have greater consistency over a 24/7 period. These new standards will be subject to the governance process through the Welsh Informatics Standards Board (WISB). The new standards will be introduced by spring 2019, and will supersede the existing OOHs standards and interim 111 standards.

In summer 2017, Welsh Government commissioned the NHS Delivery Unit to review and support health boards in the delivery of the OOHs standards. These standards, developed in 2014, were to be achieved by March 2018. The Delivery Unit produced an all Wales summary report for the Welsh Government, providing a position statement on where the LHBs were against the standards. This report has subsequently been published on HOWIS.

<https://wg.wales.nhs.uk/uniquesigf31510284af2ec6dcfb998c39315f7a88ce2223c1263895620e9f9605280fdf2/uniquesig0/sitesplus/407/page/71281>

In summer 2018, Welsh Government has commissioned a self-assessment annual report from each LHB to assess their progress in delivering the new standards. These are in the process of being analysed and a summary report will be produced by Welsh Government by September 2018.

Recommendation 3 - OoHs - An Attractive Place to Work

To make out-of-hours services more attractive places to work, the Welsh Government should work with the health boards to carry out a national project to engage with out-of-hours staff, to identify and address the factors that are causing poor morale and deterring staff from working in those services.

Welsh Government have been working with health boards, professional bodies, clinicians and GPC Wales over the last 12 months to better understand how to make OOHs a more attractive place to work. Some LHBs - Powys tHB and Aneurin Bevan University Health Board - have established Clinical Reference Groups to improve engagement with their OOH workforce, which appear to be working well.

Welsh Government, working with NHS Chief Executives and the Strategic Lead for OOHs has agreed a national programme of peer reviews. These reviews will be chaired by Dr CDV Jones, supported by up-to-date information, and will engage with out-of-hours clinicians in developing local plans for the way forward. The first of the peer reviews will be held in Hywel Dda as a pilot in mid August, the remaining LHBs will conduct their peer reviews by November 2018, ahead of the winter 2018/19.

Recommendation 4 - Workforce

The Welsh Government should work with the health boards, ambulance service and the 111 Programme to develop a national workforce plan for out-of-hours services. This should build on the engagement work in Recommendation 3. The plan should set out the mix of skills and competencies that multi-disciplinary out-of-hours teams need in future, and the national-level actions required to deliver that mix of skills.

OOHs are part of a wider system, and need to be seen in the context of the transformational model for Primary Care. This focuses on developing a 24/7 primary care service which uses the skill set delivered by multi-disciplinary professionals and new technology. Most LHBs have already been developing their OOH clinical teams to include a range of health professionals.

Workforce plans are generated from the annual planning process and significant effort is being made to ensure that these plans include urgent care and primary care components that include OOHs. We would agree that this process needs improvement and the action plan emanating from the peer review will include a specific component on workforce planning.

Recommendation 5 - Service Quality - OoHs

The Welsh Government should work with health boards to introduce a regular national assessment of quality in out-of-hours services, to consider clinical audit, learning from incidents and patient experience. The assessment should also lead to a set of national and local improvement actions for the NHS in Wales.

The GP Out of Hours Forum, a clinically led group comprising OOHs clinicians and managers, have now established a 'Quality and Safety Committee' to consider audit findings and derive learning from incidents and patient experience. This is chaired by Dr Roger Diggle, Associate Medical Director, Hywel Dda UHB.

Health boards must consider how to increase levels of corporate support to the primary care OOHs, and support from IM&T and patient experience teams is especially important.

Recommendation 6 - Best Practice, Local Management and a Local Model for face-to-face Services

The Welsh Government should work with the health boards, ambulance service and relevant all-Wales groups to test and spread innovative practice in the provision of out-of-hours face to face appointments and home visits. This work should result in a clear model of face-to-face services for the NHS to implement locally or regionally.

While in the longer term call handling and first line triage will be undertaken by the 111 service, the provision of the face to face element is likely to remain the statutory responsibility of the LHBs.

The new national Urgent Care Group, chaired by the Strategic Lead for OOHs will consider various models of care which can offer flexibility depending on local circumstances. However, the Group will also investigate the opportunities provided by regional working and new technologies.

The Peer Reviews will investigate local management arrangements; and will require LHB executives to introduce the process, and be in attendance for the session debrief, involving all participants. The resulting action plan will be developed by and owned by the LHB, to deliver change.

Health boards must ensure that workforce planning of OOHs is a priority for the corporate planning team; and that it features as a core service in the Health boards' Unscheduled Care Plans, winter plans and IMTPs.

Recommendation 7 - National Leadership

Welsh Government should review the national leadership arrangements for out-of-hours services. The review should consider whether there is a need for more specific leadership of out-of-hours at a national level. The review should also consider the role of the national Out-of-Hours Forum and whether its work is sufficiently joined up with that of the other national NHS groups.

Welsh Government supports the direction of travel in the report, encourages greater national leadership for OOHs, and the call for a strategic plan to develop sustainable clinical triage / treatment arrangements.

Welsh Government accepts that it will need greater involvement in the process and that accountability issues need to be clarified.

The Chief Executive of the Aneurin Bevan UHB has taken on the national strategic lead for Out of Hours. Ms Paget will work with the NHS and Welsh Government to transform the way services are delivered over the next few years. As a first step a National Urgent Care Group has been set up, which will align, support and scrutinise work being undertaken by the NHS and Welsh Government. This group will link closely with the National Primary Care Board, the 111 Board and the National Programme for Unscheduled Care.

Recommendation 8 - 111

Welsh Government and the 111 Programme should clarify the timescales for finalising and assessing the business case for the integrated computer system to replace the existing systems in 111 and out-of-hours services, to ensure decisions on affordability are taken as soon as possible.

The Business Case for the integrated computer solution for 111 is making good progress, and is following the timetable agreed as part of the capital investment process. Over the next three years OOHs will increasingly be provided through the NHS 111 service.

As the 111 programme rolls out it is expected to help the support for primary care OOHs, and with it greater national alignment for the call handling and clinical triage. The 111 team are supporting the development of regional working to meet the demand for clinical advice and treatment at peak times.

I accept the points where more leadership is called for, but I also believe that we have made progress on many of the calls for action. The establishment of a strategic lead is timely, and provides strong leadership moving forward. The Peer Review process and the *Policy Framework for Unscheduled Care* being developed over the coming months will help to provide a robust guide to how OOHs service should function in the future.

Yours sincerely

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Andrew Goodall', written in a cursive style.

Dr Andrew Goodall
Director General/ Chief Executive NHS Wales

cc:

Frank Atherton, Chief Medical Officer for Wales

Jean White, Chief Nursing Officer for Wales

Andrew Havers, Senior Medical Officer, Primary Care

Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Health and Social Services Group



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mr A Crompton
Auditor General for Wales
Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff, CF11 9LJ

14 August 2018

Dear Mr Crompton

Primary Care Out of Hours (OOHs) Services – All Wales Summary Report - Update

Further to my letter of 1st August I wanted to take this opportunity to provide you with some further information on a number of the recommendations made in your report '*Primary Care Out of Hours Services*'. The Welsh Government accepts the 8 recommendations and will continue to work with the NHS to ensure that they are addressed.

The Welsh Government acknowledges the factual accuracy of the report, but feels it is important that our response provides the context around the issues and that we are able to demonstrate where work is already underway to address the points made. Co-production is an important concept, therefore working with partners and stakeholders' means that specific processes and outcomes cannot be predetermined, and that Welsh Government and the NHS needs to take full account of all the evidence, including stakeholder views before it can act.

I confirmed in my previous letter that I had asked Judith Paget to take the strategic lead for Out of Hours. Her newly formed group has now met twice, and is developing working to develop a strategic plan for Out of Hours. Your report will provide work going forward, and I look forward to updating you regarding the output later in the year.

The following provides some further information relating to a number of the specific recommendations:

Recommendation 2 I can confirm that we have received all the annual reports from health boards. These provide a self assessment against the existing Out of Hours standards. We will be repeating this process on an annual basis and will look to build on both the style and content as we move forward.

Recommendation 3 The peer review process is well underway. Dates have now been agreed with all health boards and the timetable is shown below



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 0251182
Andrew.Goodall@gov.wales
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

Heath Board	Peer review
Hywel Dda UHB	23/08/2018
Cwm Taf UHB	17/09/2018
Cardiff and Vale UHB	28/09/2018
Abertawe Bro Morgannwg UHB	23/10/2018
Betsi Cadwaladr CU HB	25/10/2018
Aneurin Bevan UHB	07/11/2018
Powys THB	13/11/2018

The output from the peer reviews will be a local action plan, with workforce being a central component. This will be jointly produced and agreed at the end of, and immediately following, each peer review. As a consequence, the outcomes cannot be pre-determined at this stage. Hywel Dda has agreed to act as a pilot to inform the later reviews.

Alex Howells, Chief Executive, Health Education and Improvement Wales (HEIW) has also agreed to look at out of hours workforce as a priority as the organisation develops its work plan.

Recommendation 5 The GP OOH Forum Quality and Safety Committee have now met twice and have agreed its terms of reference. It is in the process of implementing these, and is developing a work programme. This committee will provide feedback to the GP OOHs Forum, to support learning and development. Judith Paget's group will give consideration to the establishment of robust reporting lines into the national structure to ensure lessons can be learnt and shared on a consistent basis across Wales.

Recommendation 7 The GP OOH Forum is developing its role as a mechanism to share good practice and improve the out of hours service. It provides a structure to engage with both management and clinical colleagues and Welsh Government now have observer status on both the Forum, and the Quality and Safety Committee.

Recommendation 8 I can report that the national IT system to support the 111 service in Wales is progressing well. The competitive dialogue is continuing and on track with the timetable agreed with the Infrastructure Investment Board (IIB). Shortlisting will take place in the autumn to select three suppliers for the final round. The timetable thereafter is as follows:

Legal and governance considerations	Summer 2019
Final decision on supplier	November 2019
Implementations begins	January 2020
'Go Live'	October 2020

Further to my earlier letter, I would like to reiterate that the appointment of a national strategic lead is timely, and will provide strong leadership moving forward. The Peer Review process, Transformational Model for Primary Care and the *Policy Framework for*

Unscheduled Care, being developed over the coming months, will help to provide a robust guide to how the Out of Hours service and services provided in the out of hours period will function in the future.

Yours sincerely

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Andrew Goodall', written in a cursive style.

Dr Andrew Goodall
Director General/ Chief Executive NHS Wales

cc:

Frank Atherton, Chief Medical Officer for Wales

Jean White, Chief Nursing Officer for Wales

Andrew Havers, Senior Medical Officer, Primary Care

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Rheoli effaith Brexit ar Gronfeydd Strwythurol yr UE



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol â
Deddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006.

Roedd tîm yr astudiaeth yn Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys Mark Jeffs, Chris Pugh a Seth
Newman dan gyfarwyddyd Matthew Mortlock.

**Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2018

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildefnyddio, rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Tudalen y pecyn 244

Cynnwys

Crynodeb	5
1 Er gwaethaf ymdrechion positif WEFO i ymrwymo holl gyllid yr UE cyn Brexit, wynebodd Cymru risg sylweddol o gollu rhywfaint o gyllid mewn senario dim cytundeb, heb i Lywodraeth y DU ddiwygio telerau ei sicrhad	11
Mae WEFO yn gwneud cynnydd i ymrwymo cyllid ond cydnabu ei bod yn nod anodd iawn ymrwymo holl gyllid yr UE yn yr amserlen fyrrach hyd at fis Mawrth 2019	12
Roedd risg sylweddol y byddai Cymru yn colli cyllid dan senario dim cytundeb hyd nes i Lywodraeth y DU ymestyn ei sicrhad yn ddiweddar iawn	21
Os ceir Cytundeb Ymadael, bydd cyllid strwythurol yr UE yn parhau'n ddinewid i raddau helaeth felly risg gyfyngedig a geir y bydd Cymru yn colli arian sylweddol	25
2 Mae WEFO wedi cynnal archwiliadau cadarn er ei bwriad i gymeradwyo prosiectau a gwario'r cyllid yn gyflymach cyn Brexit	26
Mae WEFO wedi cryfhau ei dull o gymeradwyo prosiectau ac nid yw ond yn ymrwymo i'r rheini sy'n bodloni meini prawf caeth ac sy'n cyd-fynd â'i blaenoriaethau strategol	27
Mae gan WEFO archwiliadau manwl i sicrhau na all prosiectau ond hawlio cyllid os gallant ddangos eu bod wedi cydymffurfio â'r holl ofynion cyflawni a chymhwyso	30
Mae trefniadau clir ar waith ar gyfer monitro ac adrodd ar y cynnydd gyda'r rhaglen gyffredinol	31

3	Nid yw'n glir eto beth ddaw yn lle'r cronfeydd strwythurol ar ôl Brexit ond mae WEFO a Llywodraeth Cymru yn ceisio siapio'r trafodaethau	32
	Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cyflwyno Cronfa Ffyniant Gyffredin ond nid yw eto wedi datgan manylion allweddol ynglŷn â gwerth y gronfa na sut bydd yn gweithredu	33
	Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan ei gweledigaeth ar gyfer dyfodol buddsoddi rhanbarthol ac mae eisiau i'r rheolaeth lawn drosto a'r cyllid gael eu datganoli	33
	Atodiadau	
	Atodiad 1 – Dulliau Archwilio	37
	Atodiad 2 – Blaenoriaethau Cronfeydd Strwythurol yr UE a'r canlyniadau a'r allbynnau arfaethedig	38
	Atodiad 3 – Newidiadau arfaethedig WEFO i'r rhaglen	40
	Atodiad 4 – Goruchwylio a monitro rhaglenni	41

Adroddiad cryno

Crynodeb



- 1 Ers 2000, mae Cymru wedi bod yn gymwys i gael £10.2 biliwn o Gronfeydd Strwythurol yr UE, sy'n ddwy o nifer o raglenni nawdd UE sydd ar gael i Gymru. Mae'r cylch cyfredol o Gronfeydd Strwythurol yr UE yn rhan o raglen 2014-2020, er bod rheolau'r UE yn golygu y byddai gan Gymru mewn gwirionedd hyd at 2023 i ymrwymo¹, gwario a hawlio'r cyllid².
- 2 Mae Cymru yn gymwys i gael oddeutu £2.1 biliwn o gyllid Ewropeaidd dan y cylch cyfredol. Ceir £1.1 biliwn yn ychwanegol mewn 'arian cyfatebol' gan y sector preifat, y sector gwirfoddol a'r sector cyhoeddus³. Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) sy'n gyfrifol am gyflenwi'r rhaglen fel yr 'Awdurdod Rheoli'⁴.
- 3 Mae rhaglen Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020 yn cael ei rhannu'n bedair Rhaglen Weithredol. Ceir dwy gronfa: Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF). Mae oddeutu £1.2 biliwn o'r ERDF wedi'i neilltuo ar gyfer ymchwil a datblygu, ar gyfer prosiectau seilwaith, megis gwella ffyrdd, ar gyfer ynni adnewyddadwy ac arbed ynni, ac ar gyfer helpu busnesau bach. Neilltuir oddeutu £860 miliwn o'r ESF i helpu i ddatblygu sgiliau ieuencid ac oedolion sydd mewn gwaith ac sy'n chwilio am waith. Caiff y cyllid ei rannu rhwng Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, sy'n cael y rhan fwyaf o'r cyllid oherwydd lefelau is o allbwn economaidd, a Dwyrain Cymru (**Ffigur 1** ac **Atodiad 2**). Bwriedir i'r cyllid ddarparu manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol eang. Mae'r canlyniadau ac allbynnau arfaethedig dan bob un o'r blaenoriaethau cyllido i'w gweld yn **Atodiad 2**.

- 1 Ar gyfer yr adroddiad hwn, rydym yn golygu bod y cyllid wedi'i ymrwymo i brosiect penodol ar ôl i WEFO ei gymeradwyo ac ar ôl i noddwr y prosiect dderbyn y llythyr cynnig grant.
- 2 Mae'r UE yn gosod targedau gwariant sy'n dechrau dair blynedd ar ôl cytuno ar y Rhaglenni Gweithredol (gelwir y fframwaith yn N+3). Mae'r targedau N+3 yn rhai sy'n cronni ac maent yn cynyddu bob blwyddyn i 100% o'r cyllid y mae'n rhaid ei wario erbyn 2023.
- 3 Gall arian cyfatebol fod ar ffurf arian ac amser, er enghraifft, gellir defnyddio gwerth cyfraniadau gwirfoddolwyr i gyfateb i gyfraniadau nawdd yr UE.
- 4 Mae WEFO yn rhan o Lywodraeth Cymru ac yn gyfrifol am gyd-reoli Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru, mewn partneriaeth â'r Comisiwn Ewropeaidd. Fel yr 'Awdurdod Rheoli' mae WEFO yn gyfrifol am reoli a gweithredu'r rhaglen yn effeithlon.

Tudalen y pecyn 247

Ffigur 1: ffeithiau allweddol am Raglen Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014-2020

CRONFEYDD STRWYTHUROL YR UE



Mae'r ffigurau'n seiliedig ar gyfradd gyfnewid o £1:€1.17


Ffynhonnell: data WEFO

Tudalen y pecyn 248

- 4 Ar 23 Mehefin 2016, pleidleisiodd y DU mewn refferendwm i adael yr Undeb Ewropeaidd. Ym Mawrth 2017, cyflwynodd Llywodraeth y DU hysbysiad o'i bwriad i adael yr UE. Yn unol â'r amserlen dwy flynedd sy'n cael ei gosod dan gyfraith yr UE, bydd y DU yn gadael yr UE am 11 o'r gloch gyda'r hwyr ar 29 Mawrth 2019.
- 5 Mae effaith 'Brexit' ar Gronfeydd Strwythurol yr UE yn dibynnu ar a yw'r DU yn gadael yr UE gyda 'chytundeb'. Mae cyfraith yr UE yn caniatáu i'r DU gytuno ar 'Gytundeb Ymadael' sy'n datgan telerau ymadawiad y DU⁵. Ym mis Mawrth 2018, cyhoeddodd y DU a'r UE Gytundeb Ymadael drafft⁶. Roedd y Cytundeb Ymadael drafft yn disgrifio amrywiol feysydd lle mae'r DU a'r UE yn cytuno, yn ogystal â rhai meysydd allweddol lle maent yn anghytuno. Ymysg y meysydd lle maent yn cytuno y mae y bydd y DU yn parhau i gyfranogi yn rhaglen Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014-2020 nes daw i ben.
- 6 Fodd bynnag, maent yn anghytuno ar rai meysydd allweddol, gan gynnwys y ffin rhwng Gweriniaeth Iwerddon a'r DU a rôl Llys Cyfiawnder Ewrop. Mae'n bosibl, os na chytunant ar y meysydd hyn, y bydd y DU yn gadael yr UE heb Gytundeb Ymadael. Mewn senario o'r fath, byddai Cymru yn dibynnu ar sicrhad gan Lywodraeth y DU. Tan yn ddiweddar, roedd WEFO wedi bod yn gweithio yn unol â sicrhad a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2016⁷, i ddarparu arian yn lle cyllid yr UE i brosiectau 'yr ymrwymwyd iddynt cyn i'r DU adael yr UE'. Ar 24 Gorffennaf 2018, ychydig cyn i ni gwblhau fersiwn derfynol yr adroddiad hwn, estynnodd Llywodraeth y DU y sicrhad i gwmpasu dyraniad Cymru (a gweddil y DU) ar gyfer Cronfeydd Strwythurol o dan gyfnod cyllideb hwn yr UE tan 2020. Mae **Ffigur 2** yn darlunio ar lefel uchel y ddau senario allweddol – 'cytundeb' a 'dim cytundeb'.

- 5 Erthygl 50 o Gytuniad Sefydlu'r Undeb Ewropeaidd yw'r adran o gyfraith yr UE sy'n delio â sut mae aelod-wladwriaethau'n gadael yr UE.
- 6 Llywodraeth y DU a'r Comisiwn Ewropeaidd, **Cytundeb Drafft ar ymadawiad Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon â'r Undeb Ewropeaidd a'r Gymuned Ynni Atomig Ewropeaidd**, Mawrth 2018.
- 7 Ym mis Awst 2016, cyhoeddodd Llywodraeth y DU sicrhad cychwynnol i'r DU gyfan i ariannu prosiectau yr ymrwymwyd iddynt cyn Datganiad hydref y Canghellor. Daeth cyhoeddiad Hydref 2016 yn dilyn Datganiad yr hydref gan ymestyn y sicrhad i bob prosiect yr ymrwymwyd iddo cyn i'r DU adael yr UE.

Ffigur 2: cytundeb ymadael y DU/UE – y senarios cytundeb a dim cytundeb diweddaraf ar gyfer Cronfeydd Strythurol yng Nghymru



7 Mae'r adroddiad hwn yn pwysu a mesur a yw WEFO yn rheoli'n effeithiol y risgiau a'r cyfleoedd i'r Cronfeydd Strythurol oherwydd Brexit. Mae ein dulliau archwilio i'w gweld yn **Atodiad 1**. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar lefel uchel ar y prif risgiau. Nid ydym wedi adolygu'n drylwyr y dull o reoli'r rhaglen drwyddi draw. Nid ydym ychwaith wedi adolygu ymateb ehangach Llywodraeth Cymru i'r risgiau a'r cyfleodd a ddaw yn sgil Brexit. Ym mis Ebrill 2014, cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad manwl ar Raglen Cronfeydd Strythurol yr UE 2007-2013 (**Blwch 1**)⁸ a lle bo hynny'n berthnasol rydym wedi defnyddio'r adroddiad hwnnw i gefnogi ein canfyddiadau.

8 Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Gronfeydd Strythurol yr Undeb Ewropeaidd 2007-2013**, Ebrill 2014.

Blwch 1: adroddiad 2014 yr Archwilydd Cyffredinol ar Gronfeydd Strwythurol 2007-2013

Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i gasgliad positif ynglŷn â'r cynnydd gyda'r rhaglen ac ynglŷn â gwell trefniadau rheoli. Er ei bod yn rhy fuan i fod yn bendant ynglŷn ag effaith gyffredinol y rhaglen, ceid arwyddion positif o'r gwerthusiadau parhaus.⁹ Roedd WEFO wedi cymryd camau i roi sylw i'r holl faterion y gwnaethom argymhellion yn eu cylch.

- 8 Mae'r adroddiad yn cael ei lunio o amgylch y prif risgiau i gyllid Ewropeaidd a'r cyfleoedd yn sgil Brexit. Mae'r prif risgiau a'r cyfleoedd i'w gweld yn **Ffigur 3** ynghyd â'n casgliadau o safbwynt sut y mae WEFO yn eu rheoli. Canolbwyntiodd ein gwaith i ddechrau ar gynnydd WEFO yng ngoleuni sicrhad blaenorol Llywodraeth y DU. Mae union effaith cyhoeddiad Llywodraeth y DU ynghylch sicrhad estynedig yn cael ei drafod ac mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cyhoeddi canllawiau newydd cyn bo hir. Serch hynny, mae'n amlwg bod y sicrhad estynedig yn lleihau'n sylweddol y risg y bydd Cymru yn colli cyllid mewn sefyllfa dim cytundeb. Mae angen i'n hadroddiad gael ei ystyried yn y cyd-destun hwnnw. Ar adeg drafftio'r adroddiad hwn, nid yw'n glir sut y bydd y cyhoeddiad hwn yn effeithio ar gynlluniau blaenorol WEFO ar gyfer ymrwymo cyllid erbyn mis Mawrth 2019.

Ffigur 3: y prif risgiau a'r cyfleoedd i Gronfeydd Strwythurol yr UE yng Nghymru yn sgil Brexit

Risg/cyfle	Casgliad
Prif risg: Bod Cymru yn colli llawer iawn o gyllid.	Er gwaethaf ymdrechion positif WEFO i ymrwymo holl gyllid yr UE cyn Brexit, wynebodd Cymru risg sylweddol o golli rhywfaint o gyllid mewn senario dim cytundeb heb i Lywodraeth y DU ddiwygio telerau ei sicrhau.
Prif risg: Bod WEFO yn gostwng ei safonau er mwyn ymrwymo prosiectau a gwario arian yr UE cyn Brexit.	Mae WEFO wedi cynnal archwiliadau cadarn er ei bwriad i gymeradwyo prosiectau a gwario'r cyllid yn gyflymach cyn Brexit.
Prif gyfle: Defnyddio'r gwersi a ddysgwyd yn sgil blynyddoedd o reoli cronfeydd strwythurol yng Nghymru gydag unrhyw gynllun newydd.	Nid yw dyfodol cyllid rhanbarthol i'r dyfodol ar ôl Brexit yn glir ond mae WEFO a Llywodraeth Cymru yn ceisio siapio'r drafodaeth.

⁹ Ers hynny mae WEFO wedi cyhoeddi adolygiad o gylch 2007-2013, Gwerthusiad Terfyn Rhaglen 2007-2013 y Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru, Rhagfyr 2017, sy'n disgrifio'n fanwl effeithiau cylch ariannu 2007-2013.

- 9 O safbwynt y risg bod Cymru yn colli cyllid mewn senario dim cytundeb, o dan y sicrhad blaenorol, byddai'r union swm wedi dibynnu ar i ba raddau roedd WEFO yn gallu ymrwmo'r holl gyllid erbyn mis Mawrth 2019. Byddai hefyd wedi dibynnu ar i ba raddau y bydd prosiectau yn ddiweddarach yn mynd yn eu blaenau yn ôl y bwriad ac yn gwario'r holl gyllid a ddyrannwyd. Am bob 1% o'r holl arian sydd ar gael nad yw WEFO yn ei ymrwmo neu sy'n cael ei danwario, byddai Cymru wedi colli oddeutu £21 miliwn.
- 10 Ac ystyried ein casgliadau cyffredinol positif drwyddynt draw a natur lefel uchel ein hadolygiad, nid ydym yn gwneud dim argymhellion ffurfiol penodol. Fodd bynnag, mae rhai materion allweddol i WEFO a Llywodraeth Cymru eu rheoli hyd yn oed gyda'r estyniad i'r sicrhad:
- a Cadw golwg ar newidiadau economaidd ehangach, gan gynnwys o safbwynt Brexit, ac addasu'r rhaglen lle bo angen mewn ymateb
 - b Cynyddu'r cyfraddau ymrwymiad, gweithio gyda noddwyr prosiectau posibl i roi sylw i bryderon, gan gynnwys a fydd arian cyfatebol ar gael
 - c Cynyddu'r gyfradd wario drwy annog prosiect i gyflwyno'u hawliadau am gyllid UE yn ddi-oed
 - ch Gweithio gyda noddwyr prosiectau fel bod llai o brosiectau'n tanwario gan arwain at golli cyllid i Gymru
 - d Recriwtio a chadw staff ar adeg lle ceir cryn ansicrwydd ynglŷn â rhai o'r rolau yn WEFO a llwyth gwaith cynyddol posibl oherwydd y bydd angen asesu prosiectau'n gyflymach
 - dd Cynnal archwiliadau trylwyr
 - e Sicrhau, yn ystod y cyfnod pontio i unrhyw gynllun yn lle'r cronfeydd strwythurol, fod arbenigedd WEFO i oruchwylio a gwerthuso prosiectau'n drylwyr yn cael ei gadw naill ai yn y rhaglen newydd neu yng ngwasanaeth cyhoeddus Cymru yn ehangach

Rhan 1

Er gwaethaf ymdrechion positif WEFO i ymrwymo holl gyllid yr UE cyn Brexit, wynebodd Cymru risg sylweddol o gollu rhywfaint o gyllid mewn senario dim cytundeb, heb i Lywodraeth y DU ddiwygio telerau ei sicrhad



- 1.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn edrych ar sut mae WEFO wedi bod yn rheoli'r risg bod Cymru yn colli arian UE o ganlyniad i Brexit. Yn benodol, mae'n edrych ar y senarios cytundeb a dim cytundeb ar gyfer Brexit. Yn y senario dim cytundeb, rydym yn edrych ar y risgiau sy'n gysylltiedig â sicrhad blaenorol Llywodraeth y DU i ariannu prosiectau yr ymrwymwyd iddynt cyn Brexit (29 Mawrth 2019). Yna rydym yn ystyried canlyniadau cyhoeddiad Llywodraeth y DU ar 24 Gorffennaf 2018 yn ymestyn y sicrhad i gwmpasu dyraniad Cymru ar gyfer Cronfeydd Strwythurol o dan gyfnod cyllideb hwn yr UE tan 2020. Yn y senario cytundeb rydym yn ystyried effaith y Cytundeb Ymadael drafft ac unrhyw risgiau gweddilliol i gyllid yr UE yn y senario hwnnw.

Mae WEFO yn gwneud cynnydd i ymrwymo cyllid ond cydnabu ei bod yn nod anodd iawn ymrwymo holl gyllid yr UE yn yr amserlen fyrrach hyd at fis Mawrth 2019


- 1.2 Dan reolau'r UE, mae gan WEFO tan ddiwedd Rhagfyr 2023 i ymrwymo a gwario'r cyfan o'r £2.1 biliwn o gyllid yr UE¹⁰. Yn ymarferol, ac ystyried yr amser a gymerir i gymeradwyo a chyflenwi prosiectau, i ddechrau nod WEFO oedd ymrwymo'r holl gyllid erbyn Rhagfyr 2020. Byddai hyn wedi rhoi i WEFO y tair blynedd rhwng 2020 a 2023 i ganolbwyntio ar sicrhau bod yr holl arian a ymrwymwyd wedi'i wario. Er hynny, yn dilyn sicrhad Llywodraeth y DU ym mis Hydref 2016, aeth WEFO ati i geisio ymrwymo 100% o'r arian UE erbyn 29 Mawrth 2019¹¹. Roedd nod WEFO yn uchelgeisiol iawn. I gyrraedd y nod, roedd gan WEFO dair blynedd a naw mis yn llai i ymrwymo'r holl gyllid nag a oedd ganddi yn y cylchoedd blaenorol. Yng nghylch 2007-2013, roedd WEFO wedi ymrwymo 86% o'r cyllid ar yr un adeg yn y rhaglen. I lynu wrth y dyddiad ym mis Mawrth 2019, byddai WEFO wedi gorfod ymrwymo cyllid yn llawer iawn cynt nag yn y gorffennol.
- 1.3 Cafodd WEFO ddechrau da. Hyd yn oed cyn i'r UE gyflwyno ei arweiniad, gweithiodd WEFO gyda'r rhanddeiliaid i sefydlu ei blaenoriaethau, a oedd yn y diwedd yn debyg iawn i'r rheini yn y cylch blaenorol. O ganlyniad i'r gwaith cynnar hwn, Cymru oedd y rhan gyntaf o'r DU i gael cymeradwyaeth i'w rhaglenni gan y Comisiwn Ewropeaidd. Fodd bynnag, bu'r cynnydd yn ymrwymo cyllid ychydig yn arafach na'r cylch blaenorol. Erbyn hanner ffordd drwy fis Mehefin 2018, roedd WEFO wedi ymrwymo 74% o holl grant yr UE (£1.6 biliwn allan o £2.1 biliwn). Roedd hwn yn is na'r lefel ymrwymo o 81% a gyflawnodd WEFO ar bwynt sy'n fras gyfatebol yn y cylch blaenorol.

¹⁰ Mae gan WEFO hefyd rhyw gymaint o hyblygrwydd i wneud diwygiadau ar ôl 2020, er enghraifft, i ymateb i newidiadau yn y gyfradd gyfnewid neu symud cyllid rhwng prosiectau i ddellio â thanwariant.

¹¹ Yn wahanol i gylchoedd blaenorol, ni wnaeth yr UE osod targedau ymrwymiad ac ni wnaeth WEFO osod ei thargedau ymrwymo mewnol ei hun ar y dechrau.

1.4 Mae Ffigur 4 yn dangos y wynebodd WEFO gryn her i ymrwymo cyllid ERDF, er bod y broses o ymrwymo ERDF yn arafach nag ESF dan y cylch blaenorol hefyd. Mae WEFO wedi tynnu sylw at nifer o ffactorau sydd wedi ei gwneud yn anodd ymrwymo cyllid hyd yma (Blwch 2).

Ffigur 4: sefyllfa rhaglen Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014-2020 ar 18 Mehefin 2018



Ffynhonnell: data WEFO

Blwch 2: ffactorau sy'n effeithio ar allu WEFO i ymrwymo cyllid hyd yma

Ansicrwydd ynglŷn â Brexit

Dywed WEFO fod rhai noddwyr heb gyflwyno prosiectau gan nad oeddent yn sicr a fyddai'r cyllid ar gael pe byddai eu prosiect yn rhedeg y tu hwnt i'r adeg pan fydd y DU yn gadael yr UE.

Dechrau'r rhaglen

Er bod WEFO wedi gweithredu o flaen llawer o Awdurdodau Rheoli i gael cymeradwyaeth i'r rhaglen, roedd ffactorau sydd i raddau helaeth y tu allan i reolaeth WEFO yn golygu bod y gymeradwyaeth oddeutu pedwar mis yn ddiweddarach na'r rhaglen flaenorol ar gyfer 2007-2013. Roedd y materion hynny'n cynnwys cytuno'n hwyr ar gyllidebau a rheoliadau'r UE ac oedi o safbwynt yr angen i gael dogfennau strategol DU gyfan ar waith.

Anwadalwch y gyfradd gyfnewid

Caiff uchafswm y cyllid sydd ar gael i Gymru ei bennu mewn Ewros ar ddechrau cyfnod y rhaglen. Mae'r gwypm yng ngwerth y bunt yn gynharach yn y rhaglen yn golygu bod gwerth disgwylidig cyllid yr UE mewn punnoedd yn awr £132 miliwn yn uwch nag a gredid i ddechrau. O'r herwydd, mae gan WEFO ar hyn o bryd fwy o grant ar gael i'w ymrwymo nag a ddisgwyliwyd i ddechrau.

Cynnydd yng ngwerth y cyllid ar gyfer Dwyrain Cymru

Mae newidiadau yn y ffordd y gweithredir y rhaglen ar lefel y DU yn golygu y ceir tair gwaith yn fwy o gyllid ar gyfer Dwyrain Cymru nag yn y rhaglen flaenorol. Mae WEFO eisoes wedi ymrwymo mwy o grant i Ddwyrain Cymru nag o dan y cylch 2007-13 cyfan ond bod y lefelau ymrwymo yn is nag o'r blaen gan fod ganddi fwy o gyllid i'w ymrwymo.

Newidiadau yn yr amgylchedd economaidd

Dywed WEFO bod y cyfraddau diweithdra isel yn golygu y ceir llai o alw am brosiectau i gynyddu cyflogaeth. Dywed hefyd fod buddsoddiadau blaenorol mewn prosiectau i roi hwb i sgiliau yn golygu y ceir llai o bobl heb sgiliau neu ag ychydig iawn o sgiliau. Mae WEFO yn gweithio gyda noddwyr prosiectau posibl i annog mwy o brosiectau sydd wedi'u hanelu at feithrin sgiliau pobl sydd eisoes mewn gwaith ond ei bod yn cymryd amser i'r rhain gael eu datblygu.

Blwch 2: ffactorau sy'n effeithio ar allu WEFO i ymrwmo cyllid hyd yma

Mwy o ffocws ar ganlyniadau


Dywed WEFO bod y rhaglenni wedi cryfhau'r gofynion i brosiectau ddangos yn glir sut byddant yn cyflawni canlyniadau penodol yn unol ag amcanion y rhaglen a'r cyfleoedd economaidd (paragraff 2.2). Er mai nod y dull hwn, yn y pendraw, yw cael manteision tymor hwy, mae noddwyr prosiectau yn cymryd amser i addasu a chyflwyno cynigion digon clir.

- 1.5 Roedd WEFO yn dal yn bwriadu ymrwmo'r holl gyllid erbyn Mawrth 2019. Mae ganddi brosiectau ar gamau amrywiol o'r broses gymeradwyo ffurfiol, a fyddai'n golygu ymrwmo 100% o'r ERDF a 90% o'r ESF os cânt i gyd eu cymeradwyo. Dengys Ffigur 5 bod gan WEFO, ganol Mehefin, brosiectau gwerth £77 miliwn yn y cam cyn gwneud penderfyniad mwy ansicr, tra bo £377 miliwn yn y cyfnod cynllunio busnes mwy datblygedig¹². Mae rhai o'r prosiectau sydd yn yr arfaeth yn golygu adnewyddu prosiectau sy'n bodoli eisoes, megis cynlluniau dysgu seiliedig ar waith¹³.

¹² Mae paragraffau 2.3 i 2.4 a Ffigur 8 yn disgrifio'r camau cymeradwyo yn fwy manwl.

¹³ Yn dilyn argymhelliad gan Lys Archwilwyr Ewrop, penderfynodd WEFO lunio contractau ar gyfer rhai prosiectau am dair i bedair blynedd yn hytrach nag am saith mlynedd lawn y rhaglen.

Ffigur 5: cyllid sydd wedi'i ymrwmo gan WEFO a phrosiectau yn yr arfaeth ganol Mehefin 2018




Ffynhonnell: data WEFO

- 1.6 I gau'r bwlch yn y rhaglen ESF, mae WEFO wedi dechrau trafod gyda noddwyr prosiectau sy'n bodoli eisoes i'w hehangu a datblygu prosiectau newydd. Nid yw'r trafodaethau hyn wedi cyrraedd y cam cyn cynllunio ffurfiol. Pe byddai'r holl drafodaethau cynnar hyn yn arwain at fod y prosiectau'n bwrw ymlaen ac yn cael eu cymeradwyo, gallai WEFO ymrwymo hyd at £80 miliwn a byddai'r bwlch sy'n weddill yn cael ei lenwi'n llwyr.
- 1.7 Mae WEFO eisiau diwygio'r rhaglen i'w helpu i gynyddu'r lefelau ymrwymiad. Mae WEFO yn cynnig symud oddeutu £64.1 miliwn rhwng y blaenoriaethau presennol a chreu blaenoriaeth newydd o amgylch diwygio gwasanaethau cyhoeddus a gweithio'n rhanbarthol (**Ffigur 6** ac **Atodiad 3**). Cred WEFO y bydd y newidiadau hyn yn ei helpu i ddenu rhagor o brosiectau ac ymrwymo rhagor o gyllid. Mae'n arferol i WEFO wneud newidiadau yn y rhaglen fel y gwnaeth mewn cylchoedd ariannu blaenorol. Anfonodd WEFO ei chynigion i'r Comisiwn Ewropeaidd ym mis Mehefin 2018. Mae'n gobeithio am gymeradwyaeth ym mis Rhagfyr 2018. Mae WEFO yn gweithio gyda noddwyr prosiectau posibl i lunio prosiectau newydd a fydd yn barod i'w cymeradwyo os yw'r Comisiwn Ewropeaidd yn cymeradwyo'r newidiadau. Mae'r prosiectau posibl ar gyfer yr ERDF wedi'u cynnwys yn y ffigur 'cyn cynllunio' yn **Ffigur 5**. Nid yw'r prosiectau posibl ar gyfer y rhaglen ESF wedi datblygu i'r un graddau ac nid ydynt eto wedi'u cynnwys yn llawn yng nghyfrifiadau WEFO.

Ffigur 6: crynodeb o ddiwygiadau arfaethedig WEFO i Raglenni Gweithredol y Cronfeydd Strwythurol


CRONFA GYMDEITHASOL EWROP

Mae WEFO yn cynnig cymryd £14.3 miliwn allan o'r flaenoriaeth i Drechu tiodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy a £12.3 miliwn arall allan o'r flaenoriaeth sgiliau ar gyfer twf a rhoi £21.7 miliwn ohono mewn blaenoriaeth newydd o'r enw Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus a Gweithio'n Rhanbarthol. Mae'r £4.9 miliwn sy'n weddill yn cael ei roi i mewn i'r flaenoriaeth sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth a chyrhaeddiad pobl ifanc.



CRONFA DATBLYGU RHANBARTHOL EWROP

Mae WEFO yn cynnig symud £14.9 miliwn o'r flaenoriaeth sy'n canolbwyntio ar ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni a symud £10.0 miliwn ohono i'r flaenoriaeth sy'n canolbwyntio ar ymchwil ac arloesi a £4.9 miliwn pellach i'r flaenoriaeth sy'n canolbwyntio ar gystadleurwydd BBaCh. Mae WEFO yn cynnig bod £17.0 miliwn arall yn cael ei symud rhwng 'Amcanion Thematig' yn y flaenoriaeth Cystadleurwydd BBaCh.



Mae'r ffigurau'n seiliedig ar gyfradd gyfnewid o £1:€1.17 a allai newid

Ffynhonnell: WEFO

- 1.8 Er nad yw WEFO ond wedi ymrwymo 74% o'r cyllid Ewropeaidd ym mis Mehefin 2018, mae wedi ymrwymo cyllid gwerth 92% o gyfanswm gwerth y rhaglen, gan roi ystyriaeth i arian cyfatebol. Mae'r sefyllfa hon wedi digwydd gan fod gan y prosiectau y mae WEFO wedi'u cymeradwyo gyfran uwch o arian cyfatebol na'r hyn sy'n ofynnol dan reolau'r UE¹⁴. Mae WEFO yn ymrwymo cyllid i brosiectau ar sail angen. Mae hynny'n golygu bod cyllid yr UE yn cael ei bennu ar y lleiafswm sy'n ofynnol i lenwi'r bwlch rhwng cyfanswm cost y prosiect a'r arian cyfatebol y gall noddwr prosiect ei ddarparu. Mae WEFO wedi dewis peidio ag ymrwymo cyllid EU i brosiectau ar yr uchafswm am amrywiol resymau. Ymysg y rhesymau hyn y mae sicrhau y gall arian yr UE gael ei daenu ar draws nifer fwy o brosiectau. Hefyd, mae cyfradd uwch o arian cyfatebol yn caniatáu rhyw gymaint o hyblygrwydd i reoli risgiau o safbwynt newidiadau yn y gyfradd gyfnewid a chymhwysedd gwariant.
- 1.9 Mae'r rhy fuan barnu effaith debygol y cyllid ac a gaiff y disgwyliadau neu'r targedau gwreiddiol eu cyrraedd drwyddynt draw. Mae WEFO yn mesur ac yn cyflwyno adroddiadau ar y cynnydd a wneir yn erbyn ystod eang o fesurau manwl. Mae **Ffigur 7** yn dangos y mesurau perfformiad allweddol y mae WEFO yn adrodd eu bod wedi'u cyflawni erbyn diwedd Mawrth 2018.

14 Ar gyfer y pedair Rhaglen Weithredol, ceir 'cyfradd ymyrraeth' y cytunwyd arni. Mae hon yn datgan pa gyfran o'r Rhaglen Weithredol fydd yn gyllid o gronfeydd yr UE a pha gyfran sy'n gorfod dod o arian cyfatebol domestig. Gall WEFO osod cyfraddau ymyrraeth unigol ar gyfer pob prosiect ond rhaid i'r rhain gydbwyso er mwyn sicrhau bod pob Rhaglen Weithredol yn aros o fewn y cyfraddau y cytunwyd arnynt.

Ffigur 7: dangosyddion allweddol WEFO ar gyfer rhaglen y Cronfeydd Strwythurol ar 14 Gorffennaf 2018

	Cynnydd	Targed
Mentrau a gynorthwywyd	4,903	45,512
Mentrau a grëwyd	830	7,400
Cynnydd mewn cyflogaeth yn y mentrau a gynorthwywyd	6,065	26,980
Faint o gyllid ymchwil a sicrhawyd	£48 miliwn	£230 miliwn
Cynnydd yn lefel yr allforion	£48 miliwn	£233 miliwn
Capasiti ychwanegol cynhyrchiant ynni adnewyddadwy*	0	28
Nifer yr aelwydydd gyda gwell dosbarthiad defnydd ynni*	0	9,700
Gwasanaethau cludiant cyhoeddus a grëwyd neu a wellhawyd*	0	2,900,000 cerbyd km
Pobl a gynorthwywyd	143,435	434,100
Pobl ifanc a gynorthwywyd	39,637	150,000
Pobl a gynorthwywyd i gyflogaeth	9,651	40,642
Pobl sy'n ennill cymwysterau	42,875	194,633

Sylwer: * Fel rhan o'r newidiadau arfaethedig i'r rhaglen (paragraff 1.7) mae WEFO yn bwriadu dileu'r tri dangosydd hyn. Nid yw WEFO wedi gwneud cynnydd tuag at y targedau gan nad ydyw wedi cymeradwyo dim prosiectau a fyddai'n cyfrannu'n uniongyrchol at y mesurau hyn.

Ffynhonnell: data WEFO

Roedd risg sylweddol y byddai Cymru yn colli cyllid dan senario dim cytundeb hyd nes i Lywodraeth y DU ymestyn ei sicrhad yn ddiweddar iawn

Roedd risg sylweddol y byddai Cymru yn colli cyllid dan delerau sicrhad blaenorol Llywodraeth y DU os na cheir Cytundeb Ymadael ym mis Mawrth 2019

- 1.10 Os bydd y DU yn gadael yr UE heb gytundeb ym mis Mawrth 2019, daw cyllid yr UE i Gymru i ben ar unwaith. Roedd sicrhad Llywodraeth y DU wedi dweud y byddai'n darparu cyllid yn lle hwn ar gyfer 'yr holl brosiectau buddsoddi a strwythurol' yr ymrwymwyd iddynt cyn i'r DU adael yr UE'. Fel y drafftwyd yn flaenorol, nid yw'r sicrhad ond yn cynnwys cyllid ar gyfer prosiectau sydd wedi'u cymeradwyo erbyn 29 Mawrth 2019.
- 1.11 Mae gan WEFO brosiectau sy'n mynd rhagddynt i helpu i symud tuag at y targed ymrwymo 100% erbyn Mawrth 2019. Er hynny, mae perygl na fydd rhai prosiectau yn ei gwneud hi drwy'r broses ymgeisio a gall rhai gael eu oedi y tu hwnt i fis Mawrth 2019. Mae rhai prosiectau'n gymhleth ac yn dibynnu ar sefydliadau eraill am arian cyfatebol nad yw wedi'i sicrhau eto. Mae rhai prosiect mawr yn yr arfaeth, sef prosiectau ynni adnewyddadwy a chlundant. Pe byddai nifer fechan o'r rheini'n syrthio drwodd neu'n methu'r dyddiad cau ym mis Mawrth, ceid bwlch sylweddol. Rhaid cofio mai mewn cam trafod a datblygu cynnar iawn y mae llawer o'r prosiectau.
- 1.12 Mae WEFO wedi bod yn effro i'r perygl y bydd prosiectau'n syrthio drwodd ac mae ganddi rai prosiectau o gynlluniau sydd â nifer ormodol o geisiadau y mae'n gofyn i noddwyr prosiectau eu cadw dan ystyriaeth. Mae gwerth y prosiectau wrth gefn hyn yn oddeutu £47 miliwn. Fodd bynnag, wrth i amser fynd yn ei flaen, byddai'n mynd yn fwyfwy anodd i WEFO allu cael y prosiectau wrth gefn drwy'r prosesau cymeradwyo cyn Brexit.
- 1.13 Oherwydd ei bod yn debygol na fydd rhai prosiectau yn ei gwneud hi drwodd i gymeradwyaeth lawn a'r anhawster cynyddol i gael prosiectau yn eu lle wrth i ddyddiad Brexit nesáu, credwn yr oedd risg sylweddol na fyddai WEFO yn ymrwymo 100% o'r cyllid cyn mis Mawrth 2019. Am bob 1% o'r cyllid na fyddai WEFO yn ei ymrwymo, byddai Cymru wedi colli oddeutu £21 miliwn.

1.14 Gallai Cymru fod wedi colli hefyd oherwydd diffyg hyblygrwydd i symud arian rhwng prosiectau ar ôl Brexit. Mewn rhaglen o'r maint hwn, mae'n anochel y bydd rhai prosiectau'n gwario llai na'r bwriad. Yn y gorffennol, mae WEFO wedi bod yn gallu ailgyfeirio tanwariant i brosiectau eraill. Fodd bynnag, nid oedd yn glir a fyddai sicrhad Llywodraeth y DU, a oedd yn ymwneud yn benodol â phrosiectau sydd wedi'u cymeradwyo, yn caniatáu'r hyblygrwydd i symud cyllid rhwng prosiectau. Amcangyfrifwn fod y tanwariant yn y cylch blaenorol yn oddeutu 6% o gyfanswm gwerth y cyllid.

Mae Llywodraeth y DU wedi ymestyn y sicrhad yn ddiweddar, gyda'r telerau newydd yn lleihau'n sylweddol y risg y bydd Cymru yn colli cyllid mewn senario dim cytundeb

1.15 Ar 24 Gorffennaf 2018, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bod yn ymestyn ei sicrhad o gyllid yr UE i gwmpasu dyraniad Cymru (a gweddil y DU) ar gyfer Cronfeydd Strwythurol o dan gyfnod cyllideb hwn yr UE tan 2020. Fel y'i drafftwyd, mae'r estyniad hwn o'r sicrhad yn lleihau'n sylweddol y risgiau sy'n gysylltiedig â pheidio ag ymrwymo cyllid a thanwario mewn senario dim cytundeb. Fodd bynnag, daw'r union effaith yn gliriach wrth i Lywodraeth y DU nodi rhagor o fanyliol ar sut y bydd y sicrhad yn gweithio yn ymarferol.

1.16 Roedd WEFO, a hefyd rannau eraill o'r DU, wedi ceisio deall dehongliad Llywodraeth y DU o'r sicrhad blaenorol. Ym **MIwch 3** fe welwch y meysydd lle roedd WEFO wedi gofyn am ragor o fanylion. Mae rhai o'r materion hyn yn parhau'n berthnasol hyd yn oed gyda'r sicrhad estynedig. Roedd Llywodraeth y DU wedi llunio canllawiau drafft ar y sicrhad blaenorol a oedd yn cael ei drafod gyda'r llywodraethau datganoledig a rhanddeiliaid eraill. Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu paratoi canllawiau wedi'u diweddarau ar y sicrhad estynedig yn y dyfodol agos, a deallwn y bydd y rhain yn mynd i'r afael â rhai o'r materion a godwyd gan WEFO. Yn y pen draw, penderfyniad Llywodraeth y DU yw cwmpas y sicrhad.

Blwch 3: meysydd allweddol lle roedd WEFO wedi ceisio eglurhad ynglŷn â sicrhad blaenorol Llywodraeth y DU

Hyblygrwydd i amrywio prosiectau

A fydd Llywodraeth y DU yn caniatáu amrywiadau i brosiectau y cytunwyd arnynt ac yr ymrwymwyd iddynt ar 29 Mawrth 2019 ac yn dal i ystyried bod ymrwymadau a amrywiwyd yn cael eu cynnwys dan y sicrhad hwn?

Effaith ar gyllid arall

A all Llywodraeth y DU gadarnhau na fydd y sicrhad yn effeithio ar unrhyw gyllid arall sydd wedi'i glustnodi ar gyfer Cymru?

Gwerth cyffredinol y sicrhad

Sut a phryd y bydd Llywodraeth y DU yn pennu a oes gwerth Sterling i'r terfyn uchaf ar ei sicrhad?

Rheoliadau

Pa reoliadau UE sy'n bodoli eisoes y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu eu cadw a pha broses archwilio ac arolygu a fydd yn ofynnol ar ôl Brexit?

Torbwynt

A fydd Llywodraeth y DU yn talu unrhyw symiau sydd yn y system pan fydd Brexit yn digwydd?

Cymorth technegol

A fydd Llywodraeth y DU yn parhau i ariannu staff WEFO a chostau hyfforddiant, cynghori a chefnogi eraill dan y sicrhad?

- 1.17 Er bod yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y risgiau i Gymru, ceir risg ehangach i sefyllfa ariannu'r DU mewn senario dim cytundeb. Mewn senario dim cytundeb, byddai Llywodraeth y DU yn talu'r bwlch yn y cyllid ar gyfer prosiectau a arwyddwyd. Mae maint y bwlch hwnnw yn dibynnu'n rhannol ar faint o gyllid UE y mae Cymru (a rhannau eraill o'r DU) yn gallu ei hawlio gan yr UE cyn Brexit. Er mwyn hawlio arian gan yr UE, rhaid i brosiectau i ddechrau wario'r arian, yna gyflwyno hawliad i WEFO. Mae WEFO wedyn yn cyflwyno hawliadau i'r Undeb Ewropeaidd i hawlio'r cyllid.

1.18 Mae WEFO wedi annog noddwyr prosiectau i gyflwyno hawliadau'n ddi-oed er mwyn hawlio cyllid yr UE. Mae cynlluniau WEFO ar gyfer hawlio yn cael eu symbylu'n bennaf gan dargedau gwariant blynyddol yr UE. Hyd at ddiwedd 2017, mae WEFO wedi mynd dros y targedau gwariant yn aruthrol. Mae WEFO eisoes wedi mynd dros dargedau 2018 mewn tair allan o'r pedair rhaglen weithredol¹⁵.

1.19 Er ei bod yn cyrraedd ei thargedau, mae WEFO yn cydnabod nad yw noddwyr prosiectau yn cyflwyno hawliadau mor brydlon ag y gallent. Mae WEFO yn priodoli sawl ffactor i hyn:

- Mae rhai noddwyr prosiectau yn cymryd amser ychwanegol i archwilio eu hawliadau a dilysu eu holl waith papur gwariant a chymhwysu cyn cyflwyno hawliadau.
- Er bod WEFO yn annog hynny, mae'n well gan rai rhannau o Lywodraeth Cymru ddefnyddio'u cyllid domestig ymlaen llaw ac yna hawlio cyllid yr UE yn ddiweddarach.
- Mae gan un rhan o Lywodraeth Cymru hawliad mawr yn yr arfaeth am weithgaredd dysgu seiliedig ar waith, sydd ar ei hôl hi gan eu bod yn ceisio datrys problemau gyda'r systemau cyfrifiadurol sy'n dilysu a yw'r gwariant yn gymwys.

15 Nid yw rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi cyrraedd y targedau ar gyfer 2018 eto, ond mae ganddi tan fis Rhagfyr 2018 i wneud hynny. Mae WEFO yn disgwyl y caiff rhai o'r targedau ariannol ar gyfer y rhaglen weithredol hon eu hail-osod os bydd yr UE yn cymeradwyo newidiadau arfaethedig i'r rhaglen.

Os ceir Cytundeb Ymadael, bydd cyllid strwythurol yr UE yn parhau'n ddinewid i raddau helaeth felly risg gyfyngedig a geir y bydd Cymru yn colli arian sylweddol

- 1.20 Os bydd y DU a'r UE yn cytuno ar y Cytundeb Ymadael drafft, ni fydd angen sicrhad Llywodraeth y DU. Dan delerau'r Cytundeb Ymadael drafft, bydd Cymru yn dal i allu cyfranogi yn rhaglen 2014-2020 tra pery. Bydd gan WEFO hyd at fis Rhagfyr 2023 i ymrwymo'r holl gyllid a chyflwyno hawliadau am gyllid. Er bod WEFO ar ôl lle'r oedd yn y cylch blaenorol, mae'n hyderus y bydd yn ymrwymo'r holl gyllid erbyn diwedd y rhaglenni yn 2023.
- 1.21 Hyd yn oed gyda Chytundeb Ymadael, gallai Cymru golli cyllid os yw prosiectau'n tanwario. Mae WEFO yn rheoli risg tanwario drwy or-ymrwymo. Yn y cylch blaenorol, ymrwymodd WEFO 106% o werth y rhaglen ond mewn gwirionedd fe wariodd 99.98% o'r cyllid. Yn y gorffennol, bu gan WEFO sefyllfa i syrthio'n ôl arni, ac os nad oedd y tanwariant a'r gor-ymrwymiad yn cydbwyso ac y ceid prinder cyllid, fe allai prosiectau gael eu treiglo drosodd i'r cylch nesaf o gyllid UE. Fodd bynnag, oherwydd Brexit, ni fydd Cymru yn cyfranogi yn y cylch cyllid nesaf, felly nid yw hyn yn opsiwn mwyach. Mae'n bosibl y bydd rhaid i WEFO fod yn fwy gofalus ynglŷn â gor-ymrwymo, ac o'r herwydd bydd mwy o risg nad yw'n gallu cydbwyso ac ailddosbarthu'r tanwariant. Am bob 1% o werth y cyllid UE sy'n cael ei danwario, byddai Cymru yn colli oddeutu £21 miliwn.

Rhan 2

Mae WEFO wedi cynnal archwiliadau cadarn er ei bwriad i gymeradwyo prosiectau a gwario'r cyllid yn gyflymach cyn Brexit



- 2.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn edrych ar y risg bod WEFO yn gostwng ei safonau er mwyn cymeradwyo prosiectau a gwario arian yr UE yn gyflymach cyn Brexit. Mae'n ystyried ar lefel uchel y trefniadau sydd ar waith i:
- a sicrhau mai ond prosiectau da a chymwys sy'n cael eu dewis i gael cyllid yr UE;
 - b sicrhau nad yw prosiectau ond yn defnyddio arian yn unol â rheolau'r UE; ac
 - c monitro cynnydd gyda'r rhaglen yn gyffredinol.

Mae WEFO wedi cryfhau ei dull o gymeradwyo prosiectau ac nid yw ond yn ymrwymo i'r rheini sy'n bodloni meini prawf caeth ac sy'n cyd-fynd â'i blaenoriaethau strategol


- 2.2 Cyflwynodd WEFO ddull newydd i helpu i ddewis a blaenoriaethu prosiectau yn rhaglen 2014-2020. Canfu ein hadroddiad ym mis Ebrill 2014 ar raglen 2007-2013 fod gan WEFO eisoes system gadarn ar waith ar gyfer dewis prosiectau. Ers hynny mae wedi cryfhau ei dull ymhellach. Fel gyda chylchoedd blaenorol, caiff y Rhaglenni Gweithredol eu gyrru gan eu blaenoriaethau a'r amcanion sy'n sylfaen iddynt. Yn dilyn adolygiad yn 2013 gan Dr Grahame Guilford, cyflwynodd WEFO Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd trawsbynciol¹⁶. Mae'r fframwaith yn datgan saith o gyfleoedd thematig ar gyfer economi Cymru a thri chyfle rhanbarthol¹⁷. Nod y fframwaith yw rhoi cynigion ar gyfer prosiectau yng nghyd-destun ymdrechion ehangach i wella economi Cymru.
- 2.3 Mae dwy ran i ddull WEFO ar gyfer penderfynu a ddylid cymeradwyo prosiectau arfaethedig (**Ffigur 8**). Mae WEFO i ddechrau yn trafod syniad gyda noddwyr y prosiect cyn gofyn iddynt lenwi 'Tabl Rhesymeg Gweithredu'. Rhaid i'r Tabl ddatgan yn union sut byddai prosiectau arfaethedig yn cyflawni un neu ragor o amcanion y rhaglen a sut byddai hynny'n cael ei fesur. Wrth gwblhau'r Tabl, rhaid i noddwyr prosiectau ddatgan sut byddai eu prosiect yn cyd-fynd â'r cyfleoedd economaidd yn y Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd.

16 Llywodraeth Cymru, **Y Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd – Fersiwn**, Mehefin 2015.

17 Y saith thema yw: ynni; bwyd a ffermio; newid hinsawdd ac effeithlonrwydd adnoddau; datblygu asedau TGCh a'r farchnad ddigidol; gweithgynhyrchu uwch; gwyddorau bywyd ac iechyd; twristiaeth, adloniant a hamdden. Mae'r cyfleoedd rhanbarthol yn datgan y buddsoddiadau mawr y dylai prosiectau gyd-fynd â nhw yn y tri rhanbarth yng Nghymru. Er enghraifft, mae WEFO wedi amlygu'r cyfleoedd yn Ne-orllewin Cymru sy'n gysylltiedig â Bargaen Ddinesig Bae Abertawe a chynhyrchiant ynni amgen, gan gynnwys cynllun arfaethedig y lagwn llanw yn Abertawe.

2.4 Mae'r her a'r gwaith cynnar hwn yn helpu i dynnu allan brosiectau sy'n annhebygol o fodloni'r amcanion a'r meini prawf, er nad yw systemau WEFO yn ein galluogi i weld yn hawdd faint o gynigion a dynnwyd allan fel hyn. Mewn achosion eraill, mae'r her gynnar yn helpu noddwyr prosiectau i wella'u cynigion cyn i WEFO eu hadolygu'n fanwl. Os ânt drwy'r cam hwn, bydd angen i noddwyr prosiectau lunio achos busnes llawn. Ochr yn ochr ag amrywiol feini prawf, mae WEFO yn mynnu bod noddwyr prosiectau yn egluro sut mae eu prosiect yn gefnogol i ddatblygu cynaliadwy¹⁸. Mae WEFO wedyn yn gwneud amrywiol archwiliadau a gwerthusiadau cyn rhoi'r gymeradwyaeth derfynol.

Ffigur 8: y broses ar gyfer dethol a chymeradwyo prosiectau



Nodyn: * Mae'r grŵp rheoli portffolio yn gyfrifol am sicrhau bod digon o amrywiaeth o ran y gweithrediadau er mwyn cyflawni'r rhaglenni cronfeydd strwythurol i'r eithaf ac i benderfynu pa brosiectau arfaethedig y dylid, ac na ddylid, u gwahodd i'r cyfnod cynllunio busnes.

Ffynhonnell: data WEFO

18 Mae'r pedair rhaglen weithredol a'r Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd wedi'u sefydlu cyn cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n datgan amrywiol ddyletswyddau ar gyfer cyrff cyhoeddus a enwir, gan gynnwys mynd ar drywydd datblygu cynaliadwy. Er hynny, mae WEFO yn disgwyl i noddwyr prosiectau ddatgan a monitro eu cyfraniad i ddatblygu cynaliadwy a'r amcanion llesiant cenedlaethol.

- 2.5 Gwnaeth adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn 2014 ar Gronfeydd Strwythurol yr UE sawl argymhelliad a oedd â'r nod o egluro'r arweiniad i noddwyr, er mwyn esbonio'r gofynion a'r gwahanol gamau. Mae WEFO wedi gwneud cynnydd gyda'r argymhellion hyn ac mae wedi diweddarau ei harweiniad. Mae'n awr yn darparu arweiniad manwl i noddwyr prosiectau arfaethedig fel y gallant ddeall yr archwiliadau a wneir ym mhob cam o'r broses. Nid ydym wedi holi noddwyr prosiectau a yw'r arweiniad wedi'i ddiweddarau wedi helpu i wneud y prosesau'n gliriach.
- 2.6 Drwyddi draw, credwn fod proses WEFO ar gyfer dethol a chymeradwyo prosiectau yn drylwyr. Gall fod yn broses hir a heriol. Ond mae'n helpu i sicrhau mai ond prosiectau o ansawdd da sy'n cael cyllid. Pe byddai WEFO yn cymeradwyo prosiectau o ansawdd gwael, byddai'n gwneud ei hun yn agored i'r risg o gael cosbau ariannol llym gan yr UE. Mae gwaith y Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd (EFAT) annibynnol¹⁹ wedi rhoi hyder inni gan ddangos bod prosesau WEFO ar gyfer dethol a chymeradwyo prosiectau yn gweithredu'n effeithiol.
- 2.7 Mae dau 'gorff cyfryngol' – Adran Llywodraeth Cymru dros yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru – yn cyflenwi rhan o raglen 2014-2020 ar ran WEFO. Mae'r cyrff cyfryngol hyn yn rhedeg cynlluniau grantiau sy'n cefnogi'r sector preifat a'r sector gwirfoddol. Hyd yma mae gwerth y cynlluniau grant yn £141 miliwn. Canfu adolygiad mwyaf diweddar EFAT fod dull y cyrff cyfryngu o ddethol a chymeradwyo prosiectau'n gweithredu'n effeithiol.

¹⁹ Mae Atodiad 1 yn esbonio rôl a Gwaith EFAT.

Mae gan WEFO archwiliadau manwl i sicrhau na all prosiectau ond hawlio cyllid os gallant ddangos eu bod wedi cydymffurfio â'r holl ofynion cyflawni a chymhwys

- 2.8 Mae WEFO wedi cryfhau'r archwiliadau y mae'n eu cynnal i sicrhau nad yw prosiectau ond yn gwario arian yr UE yn unol â meini prawf caeth. Yn ystod y rhaglen flaenorol yn 2007-2013, canfu archwilwyr y Comisiwn Ewropeaidd rai problemau technegol yn y ffordd yr âi WEFO ati i archwilio gwariant prosiectau. Canfu'r archwilwyr hefyd rai problemau gyda'r arweiniad a ddarparai WEFO i noddwyr prosiectau. O ganlyniad, fe wnaeth yr UE atal taliadau dros dro i Gymru yn ystod 2014. Ymatebodd WEFO yn gyflym i gryfhau ei harchwiliadau ac ailddechreuodd yr UE wneud taliadau. Mae adroddiad rheoli blynyddol 2018 EFAT yn datgan bod systemau rheoli WEFO yn gweithredu'n effeithiol.
- 2.9 Mae rheolaethau WEFO dros gyllid yn golygu mai cyfradd 'gamgymeriadau' isel iawn sydd ganddi. Yn ei adroddiad rheoli blynyddol yn 2018, canfu EFAT mai ond 0.05%²⁰ o'r gwariant a archwiliwyd a oedd â chamgymeriad. Mae'r gyfradd gamgymeriadau gyffredinol hon yn llawer is na'r 'lefel perthnasedd' o 2% a fyddai'n sbarduno her ac ymyrraeth oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd. Mae hefyd yn welliant ar y gyfradd gamgymeriadau o 0.39% ar ddiwedd y cylch blaenorol.
- 2.10 Mae WEFO wedi gweithredu i sicrhau nad yw'r anawsterau diweddar gyda phrinder staff yn effeithio ar ei dull o archwilio hawliadau am wariant. Mae WEFO yn cynllunio ar y sail o gael 190 o staff cyfwerth ag amser llawn. Rhwng mis Mawrth 2017 a Mawrth 2018, roedd gan WEFO brinder staff a oedd yn amrywio o 11% i 16%. Dywedodd WEFO wrthym fod staff, yn ystod yr amser hwn yn gweithio goramser i sicrhau bod yr holl archwiliadau gofynnol ar brosiectau yn cael eu cwblhau. Hefyd, mae'r ansicrwydd ynglŷn â Brexit yn golygu bod rhai staff na wyddant a fydd eu hangen ar ôl mis Mawrth 2019 ac maent wedi bod yn chwilio am swyddi mewn llyfyr eraill. Mae WEFO yn effro i'r risgiau hyn ac yn gweithredu. Nid oedd gan WEFO lawer o ddewis oherwydd cyfyngiadau Llywodraeth Cymru ar recriwtio a hyrwyddo. Fodd bynnag, ddechrau 2018, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gymeradwyo achos busnes WEFO, gan ganiatáu iddi recriwtio a phenodi staff o fewn ei chyllideb bresennol.

²⁰ Rhagolwg o'r camgymeriadau yw 0.05% sy'n seiliedig ar sampl ystadegol o wariant prosiectau wedi'i gyfrifo yn unol â chanllawiau'r Undeb Ewropeaidd.

Mae trefniadau clir ar waith ar gyfer monitro ac adrodd ar y cynnydd gyda'r rhaglen gyffredinol

- 2.11 Mae gan WEFO wybodaeth dda i dracio cynnydd y rhaglen. Canfu ein hadroddiad ym mis Ebrill 2014 ar Raglen y Cronfeydd Strwythurol 2007-2013 fod cyflwyno'r System Rheoli Gwybodaeth Prosiectau a Rhaglenni (PPIMS)²¹ wedi ei gwneud yn llawer haws i WEFO reoli cyllid y rhaglen. Mae PPIMS hefyd yn cofnodi'r wybodaeth ar allbynnau a chanlyniadau prosiectau. Cadarnhaodd adroddiad rheoli blynyddol 2018 EFAT fod y data ariannol yn PPIMS yn gywir a chyflawn²² o ran y ffigurau a archwiliwyd i gefnog'r cyfrifon a gyflwynwyd i'r Comisiwn Ewropeaidd.
- 2.12 Caiff y data o PPIMs eu defnyddio i fonitro a chyflwyno adroddiadau drwy gyfrwng amrywiol haenau'r dulliau o oruchwylio rhaglenni (**Atodiad 4**). Nid ydym wedi profi'r trefniadau yn fanwl. Fodd bynnag, fe wnaethom arsylwi dau gyfarfod o'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni cyffredinol. Canfuom fod y wybodaeth a gyflwynwyd ar Gronfeydd Strwythurol yn gynhwysfawr, er bod swm a chymhlethdod y deunydd yn gallu ei gwneud yn anodd nodi'r meysydd pwysicaf i'w harchwilio. Mae WEFO wrthi'n diwygio fformat y papurau i roi crynodeb cliriach o'r materion allweddol. Darparodd aelodau'r Pwyllgor lefel dda o her ar gyllid, cyflenwi a materion ehangach. Roedd staff WEFO a oedd yn bresennol yn wybodus ac yn gallu darparu atebion manwl i ymholiadau.

21 Mae PPIMS yn system at y pwrpas y mae WEFO yn ei defnyddio i gofnodi a storio ar ffurf gyfrifiadurol ddata ar bob gweithrediad sy'n ofynnol ar gyfer monitro, gwerthuso, rheolaeth ariannol, dilysu ac archwilio.

22 Nid yw EFAT wedi gwneud profion ar y data nad yw'n ddata ariannol.

Rhan 3

Nid yw'n glir eto beth ddaw yn lle'r cronfeydd strwythurol ar ôl Brexit ond mae WEFO a Llywodraeth Cymru yn ceisio siapio'r trafodaethau



- 3.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn edrych ar yr egin gynlluniau ar gyfer cael darpariaeth yn lle'r Cronfeydd Strwythurol ar ôl Brexit. Nid yw'r adran hon yn gwneud sylw ar rinweddau'r cynlluniau. Adeg drafftio'r adroddiad hwn, mae Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal ymchwiliad i ddarpariaeth yn lle cronfeydd yr UE. Rydym wedi datgan safbwynt Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar ddyfodol cyllid rhanbarthol adeg drafftio. Yn y pendraw, mae'r cwestiwn pa haen o'r llywodraeth sy'n gyfrifol am unrhyw gynllun newydd yn fater gwleidyddol a chyfansoddiadol sydd i'w drafod rhwng Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig.

Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cyflwyno Cronfa Ffyniant Gyffredin ond nid yw eto wedi datgan manylion allweddol ynglŷn â gwerth y gronfa na sut bydd yn gweithredu

- 3.2 Yn lle ffrwd gyllid yr UE, mae Llywodraeth y DU yn bwriadu sefydlu Cronfa Ffyniant Gyffredin. Adeg drafftio'r adroddiad hwn, ychydig iawn o fanylion sydd ar gael ynglŷn â sut beth fydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Mewn llythyr at Gadeirydd Pwyllgor Gwaith a Phensiynau Senedd y DU, dywedodd yr Adran Gwaith a Phensiynau: 'Rydym hefyd yn awyddus i sicrhau bod dyluniad y Gronfa [Ffyniant Gyffredin] yn lleihau biwrocratiaeth ac mor syml ac mor hawdd â phosibl yn weinyddol i dderbynwyr ei defnyddio'. Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu dechrau ymgynghori ar ei chynigion ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn hydref 2018. Dyma rai o'r materion allweddol sy'n peri ansicrwydd i Gymru:
- ai cynllun sengl fydd y Gronfa a gaiff ei rhedeg gan Lywodraeth y DU ynteu a fydd y llywodraethau datganoledig yn pennu drostynt eu hunain sut caiff y cynllun ei redeg yn eu priod rannau o'r DU; a
 - gwerth y Gronfa, a fydd yn cyfateb ynteu'n rhagori ar lefelau cyllid cyfredol yr UE, a pha reolau a gofynion a geir o bosibl, er enghraifft, o safbwynt arian cyfatebol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan ei gweledigaeth ar gyfer dyfodol buddsoddi rhanbarthol ac mae eisiau i'r rheolaeth lawn drosto a'r cyllid gael eu datganoli

- 3.3 Ym mis Rhagfyr 2017, cynhyrchodd Llywodraeth Cymru bapur polisi ar **Fuddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit**. Mae'r papur yn datgan gwrthwynebiad Llywodraeth Cymru i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin fel rhaglen DU-gyfan. Cyflwynodd ddadl dros ddatganoli'r cyllid ac i'r cyllid hwnnw fod ar yr un lefel ag a ddarparwyd gan yr UE, fan leiaf. Galwodd y papur hefyd am i'r broses o lunio polisi rhanbarthol gael ei datganoli i Lywodraeth Cymru.

- 3.4 Wrth ddatgan ei syniadau am ddyfodol buddsoddi rhanbarthol, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio dysgu gwersi o brofiad WEFO yn rheoli'r Cronfeydd Strwythurol. Mae papur polisi Llywodraeth Cymru yn glir bod Llywodraeth Cymru eisiau 'gweld mwy na newid tebyg am debyg'. Mae'n nodi nifer o gyfleoedd i wella'r cynllun newydd yn ogystal ag adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd. Yn benodol, mae'n nodi cyfleoedd i asiantaethau ac ardaloedd gydweithio'n well gyda'i gilydd, gyda ffocws mwy cadarn ar weithio'n rhanbarthol, drwy ail-siapio meini prawf cyllido.
- 3.5 Mae Llywodraeth Cymru a WEFO wedi cysylltu ag amrywiol sefydliadau mewn digwyddiadau yng ngogledd a de Cymru a chynhaliodd arolwg agored ar-lein i gasglu barn am set o egwyddorion arfaethedig (**Blwch 4**) ar gyfer buddsoddi rhanbarthol i'r dyfodol. Mae WEFO wedi comisiynu gwerthuswyr annibynnol i ddadansoddi'r safbwyntiau. Cyhoeddodd WEFO adroddiad yn cyflwyno'r dadansoddiadau ddiwedd Mehefin 2018 a ddaeth i'r casgliad bod y dull gweithredu cyffredinol a ddisgrifiwyd gan Lywodraeth Cymru yn cael ei groesawu drwyddi draw.

Blwch 4: egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer buddsoddi rhanbarthol i'r dyfodol

- Gweithio'n fwy cadarn mewn partneriaeth.
- Cyflwyno rhaglenni hirdymor, aml-flwyddyn i ennyn hyder buddsoddwyr.
- Cyfuniad o fuddsoddiadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sy'n ategu ei gilydd.
- Rôl amlycach i bartneriaethau rhanbarthol ac unioni'r adnoddau mewn cysylltiad â hynny.
- Integreiddio mwy ar wahanol feysydd polisi gan ganolbwyntio ar bobl a lleoedd.
- Integreiddio ffynonellau nawdd a modelau ariannu.
- Mwy o ffocws ar ganlyniadau, gan sicrhau eu bod yn cynnwys anghydraddoldeb, lles, cynhwysiant a chynaliadwyedd amgylcheddol.
- Trefniadau mwy cadarn ar gyfer monitro a gwerthuso ond cyflwyno symlrwydd a chymesuredd.
- Symleiddio'r rheolau a'r meini prawf gan sicrhau tegwch i bawb ar yr un pryd.
- Annog mwy o risg er mwyn denu buddsoddiadau sector preifat ac arloesi.
- Hybu cydweithrediadau ar draws y ffin.

- 3.6 Mae'n anochel bod dyfodol WEFO yn ansicr nes ceir eglurder ynglŷn â'r hyn a ddaw yn lle'r Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru. Os caiff y cyfrifoldeb dros unrhyw gynllun newydd ei ddatganoli i Gymru, credwn mai da o beth fyddai cynnal y manteision positif a geir o werthuso a monitro prosiectau'n drylwyr, a'r sgiliau a'r profiad y mae staff WEFO wedi'u meithrin dros nifer o flynyddoedd. Os na chaiff y rhaglen newydd ei datganoli, da fyddai sicrhau bod arbenigedd WEFO yn cael ei ddefnyddio i gryfhau prosiectau a rhaglenni mewn mannau eraill yn sector cyhoeddus Cymru.

Atodiadau



Atodiad 1 – Dulliau Archwilio

Adolygu dogfennau a dadansoddi data

Fe wnaethom adolygu ystod eang o ddogfennau gan gynnwys:

- Dogfennau arweiniad WEFO
- Adolygiadau o'r Rhaglenni a gomisiynwyd yn annibynnol
- Archwiliadau'r Comisiwn Ewropeaidd
- Data ariannol a pherfformiad a ddarparwyd gan WEFO
- Briffiau gweinidogol
- Cofnodion o amrywiol gyfarfodydd gan gynnwys y Pwyllgor Monitro Rhaglenni.

Hunan-asesiad a gwblhawyd gan WEFO

Cwblhaodd WEFO hunan-asesiad drwy ateb set o gwestiynau a osodom, yn ymwneud â'r ffordd yr oedd yn rheoli'r rhaglen, yng ngoleuni'r risgiau a'r cyfleoedd oherwydd Brexit. Roedd y cwestiynau'n ymwneud â'r gwersi a ddysgwyd o adolygiadau blaenorol, y cyfeiriad strategol cyffredinol, a rheoli'r rhaglen gan gynnwys cynnydd gydag ymrwymo cyllid a hawlio cyllid gan yr UE. Cynhwysai hefyd gwestiynau am gynlluniau ar gyfer dyfodol datblygu rhanbarthol ar ôl Brexit.

Adroddiadau Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd (EFAT)

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn mynnu bod WEFO yn penodi corff archwilio annibynnol i arolygu a yw'r trefniadau ar gyfer rheoli a'i monitro'r system reoli ar gyfer y rhaglen yn cael eu rhedeg yn effeithlon. Mae'r Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd (EFAT) yn rhan o isadran llywodraethu a sicrwydd corfforaethol Llywodraeth Cymru ac mae'n gweithredu fel y Corff Archwilio ar gyfer rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE yng Nghymru. Fe wnaethom adolygu nifer o adroddiadau EFAT, yn benodol adroddiad rheoli blynyddol ac adroddiadau ar systemau WEFO ar gyfer gwerthuso ceisiadau prosiectau, monitro cynnydd prosiectau, talu hawliadau grantiau a dilysu ac archwilio prosiectau.

Cyfweliadau

Rydym wedi trafod y dull o weinyddu'r rhaglenni gyda WEFO ac uwch swyddogion yn Llywodraeth Cymru ac wedi cynnal cyfres o gyfweliadau i drafod canfyddiadau newydd ac i egluro agweddau allweddol ar y rhaglenni ac ymholiadau a gododd o hunan-asesiad WEFO.

Arsylwadau


Fe wnaethom fynychu a chynnal arsylwadau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Monitro Rhaglenni ym mis Rhagfyr 2017 a Mai 2018 a hefyd yn y digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid a gynhaliwyd gan WEFO ym mis Chwefror 2018 i ymgynghori ar safbwyntiau am debyg i beth ddylai buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru fod ar ôl Brexit.

Atodiad 2 – Blaenoriaethau Cronfeydd Strwythurol yr UE a'r canlyniadau a'r allbynnau arfaethedig

Mae **Ffigur A1** yn dangos pum blaenoriaeth WEFO ar gyfer Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ac mae **Ffigur A2** yn dangos y pedair blaenoriaeth ar gyfer Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Ar gyfer pob blaenoriaeth, mae WEFO wedi dangos y 'newidiadau' y bwriedir i'r buddsoddiad eu cyflawni. Mewn rhai achosion, mae'r newidiadau yn seiliedig ar ganlyniadau megis mwy o gyflogaeth leol, mewn eraill allbynnau neu weithredoedd ydynt, megis darpariaeth cyllid ecwiti a benthyciadau.


Ffigur A1: Blaenoriaethau Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a'r canlyniadau a'r allbynnau arfaethedig


CRONFA DATBLYGU RHANBARTHOL EWROP





Cysylltedd a Datblygu Trefol


£734.4M Cyfanswm gwariant
£469.4M Grant UE

 Lleihau tagfeydd traffig (A40) a (A55)

 Cyflogaeth gynyddol yn lleol


 Rhwydweithiau band eang TGCh cyflym iawn


 Gwella mynediad i ganolfannau trefol a chyflogaeth allweddol ar gludiant cyhoeddus




Ymchwil ac Arloesi

£541.0M Cyfanswm gwariant
£334.2M Grant UE


 Cynyddu'r cyllid ymchwil sy'n cael ei ddenu i sefydliadau ymchwil Cymru


 Masnacheiddio mwy ar YDacA busnesau Cymreig





Cystadleurwydd BBaCh

£353.0M Cyfanswm gwariant
£211.9M Grant UE

 Darpariaeth benthyciadau ac ewiti

 Defnyddio a datblygu mwy ar Fand eang Cyflym Iawn a Gwibgyswllt


 Twf cyflogaeth mewn BBaChau


 Nifer gynyddol o BBaChau a mwy yn goroesi





Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni

£248.6M Cyfanswm gwariant
£165.1M Grant UE

 Datblygu'r sector ynni morol


 Gwella effeithlonrwydd ynni yn yr aelwydydd tlotâ


 Cynlluniau ynni adnewyddadwy graddfa fechan



Cymorth Technegol

£34.6M Cyfanswm gwariant
£24.1M Grant UE

 Archwiliadau a rheolaethau


 Gwerthuso a monitro

Ffynhonnell: data WEFO

Tudalen y pecyn 280

Ffigur A2: Blaenoriaethau Cronfa Gymdeithasol Ewrop a'r canlyniadau a'r allbynnau arfaethedig


CRONFA GYMDEITHASOL EWROP





Sgiliau ar gyfer Twf


£580.9M
Cyfanswm gwariant


£378.9M
Grant UE

 Cynyddu sgiliau gweithluoedd heb sgiliau neu ag ychydig o sgiliau

 Cynyddu nifer y bobl sy'n gwneud gweithgareddau ymchwil ac arloesi gyda mentrau

 Gwella sefyllfa menywod yn y gweithlu


 Cynyddu nifer y gweithluoedd sydd â sgiliau technegol neu benodol i swyddi ar lefel ganolradd ac uwch





Cyflogaeth a chyrraeddïad pobl ifanc


£383.8M
Cyfanswm gwariant


£260.5M
Grant UE

 Cynnydd yng nghyflogadwyedd a chyflogaeth pobl ifanc

 Lleihau nifer y bobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET

 Nifer fwy yn cymryd pynciau STEM a gwella cyrraeddïad (11-19 oed)


 Gwell sgiliau yn y gweithlu Gofal Plant a Blynnyddoedd cynnar





Trechu tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy


£286.9M
Cyfanswm gwariant

£204.9M
Grant UE

 Gwella cyflogadwyedd pobl sydd fwyaf mewn perygl o dlodi a chynhwysiant cymdeithasol

 Lleihau tangyflogaeth ac absenoldeb pobl â chyflyrau sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio


 Gwella cyflogadwyedd pobl economaidd anweithgar a di-waith yn yr hirdymor




Cymorth Technegol

£25.4M
Cyfanswm gwariant

£17.2M
Grant UE

 Archwiliadau a rheolaethau

 Gwerthuso a monitro

Ffynhonnell: data WEFO


Atodiad 3 – Newidiadau arfaethedig WEFO i'r rhaglen

Mae **Ffigur A3** yn dangos mewn mwy o fanylder y newidiadau arfaethedig i'r rhaglen weithredol a ddisgrifir ym **mharagraff 1.7** a **Ffigur 6**. Mae'r newidiadau hyn yn cael eu cynnig yng ngoleuni'r cynnydd hyd yma ac er mwyn creu blaenoriaeth newydd ar gyfer gweithio rhanbarthol. Nid yw'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cymeradwyo'r newidiadau'n ffurfiol eto.

Ffigur A3: Newidiadau arfaethedig i'r rhaglenni gweithredol


CRONFA DATBLYGU RHANBARTHOL EWROP – GORLLEWIN CYMRU A'R CYMOEDD

Mae WEFO yn cynnig symud £17.0 miliwn o fewn y flaenoriaeth sy'n canolbwyntio ar gystadleurwydd BBaChau. Mae'n cynnig symud y cyllid hwn o gyngor a chymorth busnes a'i ddefnyddio i roi hwb i'r cyllid ecwiti ar gyfer ymchwil, datblygu ac arloesi dan yr offer ariannol a reolir gan Fanc Datblygu Cymru.




CRONFA DATBLYGU RHANBARTHOL EWROP – DWYRAIN CYMRU

Mae WEFO yn cynnig symud £14.9 miliwn o'r flaenoriaeth sy'n canolbwyntio ar ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni a symud £10.0 miliwn ohono i'r flaenoriaeth sy'n canolbwyntio ar ymchwil ac arloesi a £4.9 miliwn arall i'r flaenoriaeth sy'n canolbwyntio ar gystadleurwydd BBaCHau.




CRONFA GYMDEITHASOL EWROP – GORLLEWIN CYMRU A'R CYMOEDD

Mae WEFO yn cynnig cymryd £6.9 miliwn allan o'r flaenoriaeth sy'n canolbwyntio ar Drechu tldi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy a £6.9 miliwn arall allan o'r flaenoriaeth sgiliau ar gyfer twf a rhoi'r cyfanswm o £13.9 miliwn i'r flaenoriaeth newydd o'r enw meithrin capasiti sefydliadau.



CRONFA GYMDEITHASOL EWROP – DWYRAIN CYMRU

Mae WEFO yn cynnig cymryd £10.0 miliwn allan o'r flaenoriaeth i drechu tldi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy a £7.9 miliwn pellach allan o'r flaenoriaeth sgiliau a thwf a rhoi £12.9 miliwn ohono i'r flaenoriaeth newydd o'r enw meithrin gallu sefydliadau a gweithio'n rhanbarthol. Mae WEFO hefyd yn cynnig rhoi gweddill y £4.9 miliwn i'r flaenoriaeth ar gyfer cyflogaeth a chyrhaeddiad pobl ifanc.



Mae'r ffigurau'n seiliedig ar gyfradd gyfnewid o £1:€1.17 a allai newid

Ffynhonnell: data WEFO

Tudalen y pecyn 282

Atodiad 4 – Goruchwylio a monitro rhaglenni

Mae **Ffigur A4** yn dangos mewn mwy o fanylder y trefniadau goruchwylio a monitro, y cyfeirir atynt ym **mharagraff 2.12**.

Ffigur A4: strwythur goruchwylio a monitro WEFO



PPIMs	System TG WEFO sy'n cynnwys yr holl wybodaeth ariannol, a gwybodaeth am gymeradwyo a pherfformiad prosiectau.
Is-adran Rheoli Rhaglenni (PMD)	Mae WEFO wedi sefydlu tîm o swyddogion sy'n gweithio yn yr isadran hon. Eu rôl yw gweithio gyda buddiolwyr yn gynnar yn y broses o ddatblygu syniadau gweithrediad i gynghori ar pa mor llwyddiannus y gallai gyfrannu at allbynnau ar lefel y rhaglen.
Technical and Financial Appraisal Team (TFAT)	Mae TFAT WEFO yn cynorthwyo staff y PMD sy'n gyfrifol am werthuso a dethol gweithrediadau. Mae gan TFAT nifer o gyfrifwyr cymwysedig i sicrhau bod gan fuddiolwyr y capasiti ariannol i redeg eu gweithrediadau.

Adolygu prosiectau	<p>Mae'r PMD yn adolygu'n barhaus berfformiad a chynnydd pob gweithrediad. Mae'n cynnwys – ar ôl cyflwyno pob hawliad i WEFO – y perfformiad hyd yma yn erbyn dangosyddion canlyniadau, allbwn a gwariant a amlinellwyd. Yn ogystal â dangosyddion / proffiliau, mae'r PMD yn ystyried effeithiolrwydd cyffredinol ac effaith gweithgareddau'r gweithrediad i sicrhau bod y canlyniadau dymunol yn debygol o gael eu cyflawni. Mae'r PMD yn adnabod ac yn monitro risgiau a phryderon gydol oes gweithrediad ac yn cyfarfod gyda'r buddiolwr ar ôl cyflwyno pob hawliad, ochr yn ochr â'r timau perthnasol yn WEFO, i drafod cynnydd, perfformiad a phryderon.</p> <p>TFAT – yn adolygu gwybodaeth ariannol buddiolwyr posibl a chyfredol i sicrhau bod ganddynt y capasiti ariannol i redeg eu gweithrediadau.</p> <p>Archwiliadau dilysu rheolaeth – yn rhedeg fframwaith o archwiliadau a rheolaethau ar hawliadau a ddaw i law oddi wrth buddiolwyr a drwy ymweliadau safle, i sicrhau bod y gwariant a gynhwysir yn y ceisiadau hawlio gan WEFO yn cydymffurfio â'r rheolau.</p>
Adolygiadau sicrwydd ansawdd Cyrff Cyfryngol (IBs)	<p>Mae WEFO yn adolygu hawliadau a gyflwynir gan IBs cyn cynnwys gwariant yn yr hawliad gan y CE.</p>
Grŵp adolygu Cyrff Cyfryngol	<p>Mae WEFO wedi sefydlu grŵp adolygu IBs i drafod sut mae prosiectau'n cael eu cyflenwi, a chanfod unrhyw risgiau a champau gweithredu sy'n angenrheidiol. Mae'r grŵp hefyd yn adolygu'r archwiliadau o systemau ac adolygiadau Sicrwydd Ansawdd IB's WEFO.</p>
Grŵp Rheoli Risg Rhaglenni (PMG)	<p>Mae'r PMG yn monitro risgiau a phrosesau ar draws y rhaglen drwy gyfrwng nifer o gofrestris risg.</p>
Grŵp cyflawni a chydymffuriaeth	<p>Mae'r grŵp hwn yn ystyried ac yn adolygu materion cyflawni a chydymffuriaeth sy'n effeithio ar raglenni. Mae'r Grŵp yn cynnwys rhanddeiliaid mewnol ac allanol ac mae fel arfer yn cyfarfod bob chwarter.</p>
Bwrdd perfformiad rhaglenni	<p>Yn gyfrifol am gynllunio, monitro a chyfarwyddo'r ffordd y caiff rhaglenni eu cyflenwi.</p>
Pwyllgor Monitro Rhaglenni	<p>Dan reoliadau'r UE, mae gofyn i Aelod-wladwriaethau benodi pwyllgorau monitro i sicrhau bod rhaglenni gweithredol yn cael eu gweithredu'n gywir. WEFO sy'n cadeirio a cheir partneriaid rhanbarthol, economaidd a chymdeithasol.</p>

Tudalen y pecyn 284

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in
Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru